# Arolygiad thematig ar y cyd o wasanaethau adsefydlu i blant gan Dimau Troseddau Ieuenctid ac asiantaethau partner

Arolwg gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

**Cyhoeddwyd Mawrth 2015**

© Hawlfraint y goron 2015.

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk .

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar:
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX

## Cydnabyddiaeth


Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr arolygiad hwn; heb eu cydweithrediad ni fyddai'r arolwg wedi bod yn bosibl.

Hoffem, yn benodol, ddiolch i staff a rheolwyr y Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, y Canolfannau Hyfforddi Diogel a'r Timau Troseddau Ieuenctid yr ymwelwyd â nhw.

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Arweiniol** | Jane Attwood, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| **Tîm yr Arolygiad** | Colin Barnes, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Neal Hazel, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Fergus Currie, *Comisiwn Ansawdd Gofal*<br>Jan Fooks-Bale, *Comisiwn Ansawdd Gofal*<br>Cat Raycraft, *Comisiwn Ansawdd Gofal*<br>Stella Butler, AEM, Ofsted *(Addysg a Sgiliau Pellach)*<br>Steve Miller, AEM, Ofsted *(Addysg a Sgiliau Pellach)*<br>Adesua Osime, AEM, Ofsted (*Gofal cymdeithasol*)<br>Kevin Whately, AEM, Ofsted (*Gofal cymdeithasol*) |
| **Gwasanaethau Cefnogi Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi** | Adam Harvey, *Swyddog Gwasanaethau Cefnogi*<br>Stephen Hunt, *Swyddog Gwasanaethau Cefnogi*<br>Oliver Kenton, *Swyddog Ymchwil Cynorthwyol*<br>Alex Pentecost, *Rheolwr Cyhoeddiadau*<br>Jane Regan, *Swyddog Gwasanaethau Cefnogi*<br>Robert Turner, *Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi* |
| **Prif Arolygydd Cynorthwyol** | Julie Fox, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |


Nodwch - drwy'r adroddiad hwn mae’r holl enwau y cyfeirir atynt yn yr enghreifftiau o arfer wedi cael eu diwygio i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.

## Rhagair

Atal aildroseddu drwy weithio gyda'r rhai sydd eisoes wedi cyflawni troseddau yw un o'r prif ffyrdd o leihau nifer y dioddefwyr yn y dyfodol. Gall hyn ymddangos yn amlwg, ond nid yw'n hawdd. Mae llawer o'r plant[1] sy'n ymwneud â throseddu â bywydau cymhleth y maen nhw a'u teuluoedd angen cymorth gydag ef. Rôl y Timau Troseddau Ieuenctid amlasiantaethol (YOT) yw gweithio gyda'r plant hynny i leihau eu troseddu, wrth barhau i roi ystyriaeth i'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Archwiliodd yr arolygiad hwn waith YOT a'u partneriaid wrth fynd i'r afael â throseddu gan blant sy'n mynd i'r ddalfa; grŵp a wyddom sydd ymhlith y rhai mwyaf tebygol o aildroseddu.

Yng Nghymru a Lloegr, fe wnaeth dros ddwy ran o dair o blant aildroseddu o fewn 12 mis o gael eu rhyddhau o sefydliadau diogel[2]. O'r 29 o blant rydym wedi eu holrhain o'r ddalfa i'r gymuned, dim ond chwarter a gydymffurfiodd yn llawn â'u goruchwyliaeth. Mae'r rhain yn ystadegau syfrdanol. Syfrdanol gan ein bod wedi gwybod ers o leiaf degawd beth sy'n helpu plant sy'n gadael y ddalfa i roi'r gorau i droseddu; a syfrdanol oherwydd bod rhy ychydig o'r plant hyn yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt i fyw bywydau heb droseddu. Felly, hyd yn oed pan wyddwn yr ateb, ac rydym yn gwybod bod rhoi'r ateb hwn ar y cyfan yn bosibl o fewn y cyllidebau presennol, pam ar y ddaear nad yw hyn yn digwydd?

Nid yw'r gwaith i helpu plant i adsefydlu yn dechrau'n ddigon cynnar. Dylai ddechrau ar unwaith ar ôl yr ymddangosiad llys, gyda gwaith yn y ddalfa yn canolbwyntio ar gefnogi camau rhyddhau a gweithio yn y gymuned, i baratoi ar gyfer dychweliad y plentyn. Mae'r bartneriaeth YOT yn ganolog o ran sicrhau bod hyn yn digwydd ar draws yr elfennau hyn o'r ddedfryd. Ond mae gweithwyr YOT a sefydliadau carcharol yn rhy aml yn amheus o'i gilydd, mae cyfarfodydd cynllunio yn cael eu cynnal yn wael ac nid yw canllawiau presennol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn helpu i gynllunio ar gyfer adsefydlu.

Dau o'r materion adsefydlu pwysicaf yw llety addas a gweithgareddau adeiladol, gyda'r olaf yn addysg, hyfforddiant neu'n gyflogaeth, yn dibynnu ar eu hoedran, a gweithgareddau hamdden. Mae plant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladol yn cael llai o amser i droseddu, a gallant ddechrau ystyried eu hunain yn wahanol - fel rhan gadarnhaol o'r gymuned. Dylai plant a'u rhieni / gofalwyr gael eu paratoi'n dda ar gyfer rhyddhau, a phob asiantaeth yn barod i gefnogi cynllun rhyddhau adeiladol. Nid yw rhai plant yn gwybod ble byddent yn byw tan ychydig ddyddiau cyn cael eu rhyddhau, ac oherwydd hyn, ni ellir parhau gyda gweddill y ddarpariaeth. Nid yw hyn yn argoeli'n dda ar gyfer gostyngiad llwyddiannus neu roi'r gorau i droseddu.

Yn strategol, nid oes gan unrhyw un unigolyn neu sefydliad rheolaeth gyffredinol i sicrhau bod adsefydlu o ansawdd uchel yn digwydd. Mae'r cyfrifoldeb yn disgyn rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, yr Adran Addysg, sefydliadau diogel unigol, awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd ac YOTs. Mae gobaith y gall cynlluniau adsefydlu y Llywodraeth o fewn *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed Pobl Ifanc* fynd rhywfaint o'r ffordd i symud y materion hyn yn eu blaen, ond nid ydym am iddo gael ei draddodi i restr hir o ymdrechion wedi methu i geisio 'ateb' adsefydlu.

Drwy ddilyn ein hargymhellion rydym yn ystyried ei bod yn bosibl trawsnewid bywydau llawer o blant sydd wedi troseddu. Bydd angen i'r *holl* rannau cydrannol weithio i sicrhau bod plant yn cael y gefnogaeth gywir i roi'r gorau i droseddu a'i bod yn bwysig, o ganlyniad, bod llai o ddioddefwyr trosedd.

**Alan MacDonald**
**Dirprwy Brif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi**

**Syr Michael Wilshaw**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi, Ofsted**

**Yr Athro Steve Field CBE FRCP FFPH FRCGP**
**Prif Arolygydd Ymarfer Cyffredinol**
**Y Comisiwn Ansawdd Gofal**
**Mawrth 2015**

[1] Rydym yn defnyddio'r term plant yn yr adroddiad hwn gan ei fod yn ymwneud â'r rhai o dan 18 oed ar adeg yr arolygiad
[2] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – *Data aildroseddu troseddwyr ifanc a brofwyd 2013*

## Cynnwys

Tudalen


| | |
|---|---|
| **Cydnabyddiaeth** | **3** |
| **Rhagair** | **4** |
| **Crynodeb o Gasgliadau** | **6** |
| **Argymhellion** | **9** |
| **1. Deddfwriaeth, ymchwil a chanllawiau** | **14** |
| **2. Canlyniadau** | **17** |
| **3. Hwyluswyr a rhwystrau i ganlyniadau adsefydlu llwyddiannus - gweithredol** | **23** |
| **4. Hwyluswyr a rhwystrau i ganlyniadau adsefydlu llwyddiannus - strategol** | **34** |
| **Atodiad 1 Cwmpas a methodoleg** | **38** |
| **Atodiad 2 Tablau canfyddiadau** | **39** |
| **Atodiad 3 Cyfeiriadau** | **43** |
| **Atodiad 4 Rôl yr arolygiaethau a chod ymarfer** | **44** |

## Crynodeb o Gasgliadau

### Cyd-destun

Cynhaliwyd yr arolygiad gan fod y Llywodraeth newydd lansio *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed Pobl Ifanc*[3] sy'n cynnwys cynlluniau ar gyfer gwella gwaith adsefydlu gyda phlant. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn cael y dasg o ddatblygu'r cynlluniau hyn.

### Yr arolygiad

Cafodd yr arolygiad hwn ei arwain gan Arolygiaeth Prawf EM, ar y cyd ag arolygiaethau partner, mewn ymateb i ganfyddiadau ein rhaglen arolygu prif ffrwd o waith troseddwyr ifanc a oedd yn awgrymu nad oedd gwasanaethau i blant yn y ddalfa ac ar ôl cael eu rhyddhau yn cael eu cyflawni yn ddigon da yn gyson.

Canolbwyntiodd yr arolygiad ar ddatblygiad a phrofiad y plentyn. Cafodd eu hachosion eu holrhain drwy'r cyfnod carcharol, ar ôl eu rhyddhau a'r cyfnod cychwynnol allan yn y gymuned. Buom yn siarad â hwy a'u rhieni / gofalwyr lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol, am y pethau a oedd yn ei gwneud yn haws iddynt setlo yn ôl yn eu cymuned yn llwyddiannus ac am yr hyn a oedd yn rhwystr.

Fe wnaethom hefyd siarad â staff a rheolwyr yn y Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Thimau Troseddau Ieuenctid (YOTs) yn ogystal â chadeiryddion y byrddau rheoli YOT ac uwch reolwyr o'r sefydliadau sy’n goruchwylio’r gwaith hwn ledled Lloegr.

### Canfyddiadau cyffredinol

**Roedd canlyniadau troseddu ar gyfer llawer o'r plant y gwnaethom arolygu eu hachosion yn wael.**
Roedd gormod wedi cael eu harestio eto, wedi’u cyhuddo neu eu cael yn euog o droseddau newydd o fewn misoedd, neu hyd yn oed wythnosau, o gael eu rhyddhau. Canlyniadau eraill: Roedd llety, addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, camddefnyddio sylweddau a / neu iechyd corfforol neu feddyliol hefyd yn wael i ormod o unigolion. Yn aml iawn, nid oedd y gefnogaeth i helpu'r plant hyn i beidio â throseddu yn llwyddiannus a dechrau bywydau newydd, gan ufuddhau i'r gyfraith, yn ddigon da. Roedd llawer o'r plant yn ein harolygiad yn agored i niwed, naill ai drwy eu troseddu neu gan eraill. Roeddent yn byw bywydau cymhleth ac anhrefnus, yn aml mewn amgylchiadau anodd iawn.

**Gwnaethpwyd llawer o waith caled yn y sefydliadau carcharol, ond nid oedd yn gysylltiedig â rhoi'r cyfle gorau i blant roi'r gorau i droseddu a byw bywyd newydd.**
Nid oedd yn cwrdd ag anghenion unigol, ac yn aml, cymhleth, y plentyn yn ddigon aml; cafodd ei gyfyngu i beth oedd ar gael fel mater o drefn o fewn y sefydliad, y ddarpariaeth addysg a rheoli ymddygiad.

**Nid oedd staff allweddol yn deall rolau ei gilydd yn llawn, nid oeddent bob amser yn gwerthfawrogi cyfraniad y naill a'r llall ac nid oeddent bob amser yn gweithio gyda'i gilydd.**
Roedd rhannu gwybodaeth yn anghyson o fewn sefydliadau, a rhyngddynt. Nid oedd cynllunio dedfrydau yn cael ei integreiddio ar draws yr holl wasanaethau mewnol, nid oeddent bob amser

[3] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed Pobl Ifanc*, Ionawr 2014

yn ystyried asesiadau blaenorol neu angen unigol ac nid oedd wirioneddol yn gysylltiedig â'r gymuned. Nid oedd cynlluniau yn offer defnyddiol i ysgogi cynnydd; roeddent yn gyffredinol, yn amleiriog a heb ffocws. Roedd cyfarfodydd cynllunio yn aneffeithiol ac yn methu ag ymgysylltu'n briodol â phlant a'u rhieni / gofalwyr. Roedd dros un rhan o dair o'r plant dros 50 milltir o'r cartref. Roedd hyn yn effeithio ar allu rhieni / gofalwyr i wneud ymweliadau ac i gymryd rhan mewn cynllunio, yn ogystal â'r prosesau ar gyfer cael llety a mynediad i weithgareddau adeiladol.

**Yn ystod y cam carcharol, nid oedd gwaith yn y gymuned yn rhagweithiol ac mewn gormod o achosion roedd i raddau helaeth yn ymwneud â mynychu cyfarfodydd yn y sefydliad yn hytrach na pharatoi ar gyfer eu rhyddhau.**

Weithiau, roedd cael cyfarfodydd a rhoi cynlluniau yn y gronfa ddata yn fodd i gyrraedd nod; roedd plant yn cydnabod hyn ac wedi mynd yn rhwystredig ac wedi'u hymddieithrio o'r camau. Yr enghreifftiau gwaethaf o hyn oedd diffyg llety addas yn cael ei ystyried yn ddigon cynnar a'r methiant i drefnu darpariaeth addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth briodol, realistig, neu weithgareddau adeiladol ar adeg cael eu rhyddhau.

Y rhain oedd y ddwy brif gŵyn gan y rhai y buom yn siarad â nhw. Nid oedd plant yn deall pam nad oedd pethau yn eu lle pan oeddent wedi bod yn y ddalfa ers misoedd. Yn rhy aml, nid oedd plant a'u rhieni / gofalwyr yn cyfranogi neu wedi ymgysylltu i unrhyw raddau ystyrlon â'r cynlluniau ar gyfer cael eu rhyddhau. Roeddent, ar y gorau, yn ymwybodol o'r cynlluniau ac, ar y gwaethaf, wedi'u cadw yn y tywyllwch. Nid oedd llawer o baratoi i'w helpu i ymdopi ag effaith rhyddhau'r plentyn.

**Er bod rhai prosiectau adsefydlu lleol addawol, roedd gwaith adsefydlu yn y gymuned yn dechrau'n rhy hwyr yn aml.**

Nid oedd adnoddau a gwasanaethau yn eu lle yn ddigon buan cyn eu rhyddhau, gan adael y plentyn heb ddigon o gefnogaeth ar yr adeg mwyaf hanfodol. Yn rhy aml, nid oedd yn cymryd i ystyriaeth yr hyn a oedd wedi digwydd yn y ddalfa. Bron nad oedd cynllunio wrth gefn ar gyfer y cyfnod yn dilyn cael eu rhyddhau yn bodoli ac nid oedd Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro yn cael ei ddefnyddio i hybu adsefydlu llwyddiannus. Canfuom fod rhai plant yn cael eu rhyddhau heb unrhyw fath o oruchwyliaeth statudol yn dilyn cael eu galw'n ôl[4].

Ar bob cam, gwelsom fod plant yn cael eu dwyn i gyfrif am eu hymddygiad. Nid oeddem yn gweld trylwyredd cyfatebol tuag at yr asiantaethau a oedd â'r dasg o ddarparu gwasanaethau iddynt, naill ai y tu mewn neu'r tu allan i'r ddalfa.

**Ar y llaw arall, gwelsom rywfaint o waith rhagorol yn y ddalfa ac yn y gymuned, ac ar gyfer nifer fach o blant, fe wnaeth y gwaith caled hwn gyfrannu at adsefydlu'n llwyddiannus yn ôl i'r gymuned. Nid oedd y plant hynny wedi aildroseddu.**

Roeddent wedi cael cymorth i ddod o hyd i lety addas, a'i gadw, roeddent yn cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ac fe wnaethant ddweud wrthym sut roeddent wedi newid y ffordd roeddent yn meddwl amdanynt eu hunain a'u dyfodol. Roeddent yn benderfynol o ddechrau o'r newydd ac i roi'r gorau i droseddu.

Fel yr amlinellwyd yn y rhagair, mae nifer o asiantaethau ac adrannau sy'n gyfrifol am bolisi a strategaeth adsefydlu. Ar draws Cymru a Lloegr, nid oes unrhyw un unigolyn neu sefydliad sy'n atebol yn y pen draw ar gyfer gwella canlyniadau adsefydlu, yn enwedig y gostyngiad yn lefel uchel aildroseddu plant sy'n gadael y ddalfa.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr eto'n cynllunio i wella arfer adsefydlu dan nawdd *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed Pobl Ifanc* y Llywodraeth. Mae mentrau blaenorol wedi methu ymgorffori gwelliannau mewn gwasanaethau i'r rhai sy'n gadael y ddalfa neu i leihau eu haildroseddu'n sylweddol. Yn lleol, fe wnaethom ganfod

---

[4] Yn dilyn cael eu rhyddhau o'r rhan garcharol o orchymyn cadw a hyfforddi, ac yn ystod y rhan a gynhaliwyd yn y gymuned, efallai y caiff plentyn ei 'alw'n ôl' i'r ddalfa i gydymffurfio â gofynion yr oruchwyliaeth gymunedol. Efallai na fydd y cyfnod o alw'n ôl yn fwy na hyd y ddedfryd.

nad oedd byrddau rheoli YOT yn nodi nac yn dadansoddi anghenion penodol plant sy'n gadael y ddalfa neu'n edrych ar y rhesymau dros eu methiant i setlo yn ôl i'r gymuned yn llwyddiannus. Nid oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a darparwyr tai chwaith yn ymgysylltu'n ddigonol, neu'n cael eu dwyn i gyfrif, mewn perthynas ag anghenion adsefydlu plant.

## ARGYMHELLION

Yn sail i'r holl argymhellion isod yw ffocws yn y pen draw ar leihau aildroseddu, gan gynnwys lleihau unrhyw niwed y gall y plentyn ei achosi, wrth barhau i roi ystyriaeth i'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles y plant dan sylw a gwella canlyniadau ar eu cyfer nhw. Dylai elfen o hyn gynnwys datblygu cryfderau, sgiliau, canfyddiadau a rhinweddau'r plentyn i'w helpu i weld bod ganddynt ddyfodol nad yw'n cynnwys troseddu.

### Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder:

1. roi gorchwyl i uwch was sifil, yn atebol i Weinidog, â chyfrifoldeb am gyflwyno ac ymgorffori diwygiadau adsefydlu *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed Pobl Ifanc* ac argymhellion yr adroddiad hwn (*Paragraff 4.1*)
2. galluogi a chyfarwyddo'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i ddarparu blaendaliadau llety lle bo angen, am o leiaf dau fis cyn y dyddiad rhyddhau cynharaf (*Paragraffau 3.16, 4.4, 4.11*)
3. newid deddfwriaeth fel bod pob plentyn sy'n gadael y ddalfa â'r hawl i dderbyn digon o gyfnod statudol o gymorth, hyd yn oed os yw eu gorchymyn wedi dod i ben (*Paragraff 3.37*)
4. sicrhau bod anghenion unigol plant yn cael eu diwallu yn ystod y cyfnod gwarchodol o'r ddedfryd, yn hytrach na phlant yn ceisio ffitio i mewn i'r hyn sydd ar gael yn y sefydliad (*Paragraff 3.15*)
5. darparu mynediad rheoledig i'r rhyngrwyd o fewn yr amgylchedd gwarchodol i:
   - hwyluso dysgu gan y plentyn (*Paragraff 3.24*)
   - hyrwyddo gweithgareddau cymunedol drwy ddatblygu sgiliau addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a gweithgareddau adeiladol (*Paragraffau 3.24, 3.34*)
   - chwilio am lety ac addysg ar gyfer pan fyddant yn cael eu rhyddhau (*Paragraffau 3.16, 3.17, 3.34*)
   - cadw cysylltiad teuluol. *(Paragraffau 3.34, 3.35)*

### Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau:

6. ddatblygu a gweithredu proses i alluogi plant cymwys sy'n gadael y ddalfa i dderbyn budd-daliadau ar y diwrnod rhyddhau. *(Paragraff 3.36)*

### Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr:

7. gyflwyno, gwerthuso a, lle bo'n briodol, ymgorfforI'r newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth adsefydlu o dan *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed Pobl Ifanc* trwy waith *ar y cyd* gyda Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Thimau Troseddau Ieuenctid (*Paragraffau 3.3, 3.5, 3.13, 3.14, 3.20, 3.22, 3.29, 4.3, 4.8, 4.11*)
8. darparu hyfforddiant *ar y cyd* i'r holl staff carcharol, Timau Troseddau Ieuenctid a staff asiantaethau partner (mewnol ac allanol) lle bo'n briodol, i sefydlu ac ymgorffori dealltwriaeth a darparu adsefydlu effeithiol (*Paragraffau 3.3, 3.5, 3.7, 3.8, 3.9, 3.11, 3.13, 3.14 , 3.17, 3.18, 3.19, 3.20, 3.22, 3.24, 3.27, 3.29, 3.32, 4.3, 4.5, 4.6*)
9. newid y sefyllfa ddiofyn fel bod Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro yn rhan arferol o adsefydlu, a herio arferion gwrth risg.
   *(Paragraffau 3.3, 3.13, 3.14, 3.17, 3.25, 3.27, 3.34, 3.36)*

## Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid:

10. ddiwygio'r safonau ac arweiniad ar gyfer dedfrydau carcharol i gryfhau ffocws y gwaith ar baratoi ar gyfer adsefydlu'n fuan (*Paragraffau 3.3, 3.9, 3.13, 3.14, 3.15, 3.16, 3.17, 3.18, 3.19, 3.20, 3.22, 3.24, 3.25, 3.26, 3.27 , 3.29, 3.30, 3.32, 3.35)*
11. Comisiynu addysg a hyfforddiant yn y ddalfa sy'n benodol yn cefnogi lleihau aildroseddu ac yn paratoi'r plentyn ar gyfer gweithgarwch adeiladol realistig (er enghraifft, addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a hamdden) yn y gymuned (*Paragraffau 3.14, 3.15*)
12. sicrhau, drwy ymgynghori â phlant, bod yr holl ddogfennaeth a gynlluniwyd ar gyfer adsefydlu'n syml, addas a dealladwy i blant a'u rhieni / gofalwyr (*Paragraff 3.14*)
13. cefnogi byrddau rheoli i wella prosesau a chanlyniadau ac wrth weithredu argymhellion yn yr adroddiad hwn (*Paragraffau 4.7, 4.10*)
14. sicrhau bod Cyfarwyddwyr Canolfannau Hyfforddi Diogel neu eu cyfwerth, yn ymgysylltu'n well â phartneriaid strategol yn y gymuned i greu a darparu adsefydliad cydgysylltiedig ac effeithiol. *(Paragraffau 4.3, 4.4, 4.5, 4.12)*

## Dylai'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr:

15. sicrhau bod Llywodraethwyr Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn ymgysylltu'n well â phartneriaid strategol yn y gymuned i greu a darparu gwasanaethau adsefydlu cydgysylltiedig ac effeithiol. *(Paragraffau 4.3, 4.4, 4.5, 4.12)*

## Dylai Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel:

16. sefydlu neu gryfhau cysylltiadau strategol a / neu weithredol gyda phartneriaid yn y gymuned i greu a darparu gwasanaethau adsefydlu cydgysylltiedig ac effeithiol sy'n cael eu gwerthuso o ran eu heffeithiolrwydd (*Paragraffau 3.7, 3.11, 3.22, 3.24, 4.12*)
17. gwneud y gorau o ddefnydd adeiladol o Ryddhau ar Drwydded Dros Dro, gan ddefnyddio hyn yn effeithiol fel rhan arferol o adsefydlu (*Paragraffau 3.3, 3.13, 3.17, 3.25, 3.27, 3.34, 3.35, 3.36)*
18. sefydlu ac ymgorffori dealltwriaeth a darparu arferion adsefydlu da ymysg eu staff, gan gynnwys yn arbennig:
    a. effaith emosiynol y ddalfa a rhyddhau ar blant, eu rhieni / gofalwyr a dioddefwyr i'w helpu i ragweld a rheoli'r anawsterau hyn (*Paragraff 3.27*)
    b. cynnwys plant a'u rhieni / gofalwyr wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau (*Paragraff 3.14*)
    c. datblygu cyd-ddealltwriaeth o Dimau Troseddau Ieuenctid a rolau partner, rhannu gwybodaeth, gan ddal pobl eraill i gyfrif a gweithio ar y cyd i ddarparu'r gwasanaeth o'r ansawdd gorau i blant i'w helpu i roi'r gorau i droseddu (*Paragraffau 3.7, 3.10, 3.11, 3.22*)
    d. darparu ymyriadau sy'n cael eu hanelu at anghenion penodol unigolyn ac yn lleihau'r risg o niwed i'r cyhoedd (*Paragraffau 3.15, 3.32*)
    e. datblygu sgiliau i gadeirio cyfarfodydd (Gorchymyn Cadw a Hyfforddi) adolygu adsefydlu yn effeithiol. *(Paragraff 3.20)*
19. datblygu, ar y cyd â Thimau Troseddau Ieuenctid, darpariaeth ar gyfer teuluoedd a

ffrindiau sy'n eu helpu i gefnogi eu plant yn y ddalfa ac ar ôl eu rhyddhau, er enghraifft, cynnal ymweliadau teuluol. *(Paragraffau 3.11, 3.26, 3.27, 3.29, 3.34, 3.35)*

## Dylai Cadeiryddion byrddau rheoli Tîm Troseddau Ieuenctid:

20. sicrhau bod asiantaethau partner yn cydweithio gyda'r Tîm Troseddau Ieuenctid i ddarparu llety, addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill sy'n addas ac amserol, ar gyfer plant sy'n gadael y ddalfa ymhell cyn eu rhyddhau (*Paragraffau 3.9, 3.16, 3.17, 3.18, 3.19, 3.22, 4.9, 4.11*)
21. sicrhau bod asiantaethau partner yn cyfrannu at y defnydd adeiladol o Ryddhau ar Drwydded Dros Dro, gan ddefnyddio'r hyn yn effeithiol fel rhan arferol o adsefydlu (*Paragraffau 3.17, 3.25, 3.34*)
22. hwyluso'r Tîm Troseddau Ieuenctid, i ddarparu defnydd adeiladol o Ryddhau ar Drwydded Dros Dro, gan ddefnyddio hyn yn effeithiol fel rhan arferol o adsefydlu (*Paragraffau 3.17, 3.25, 3.34*)
23. sefydlu ac ymgorffori dealltwriaeth a darparu arferion adsefydlu da ymhlith holl aelodau'r bwrdd rheoli Tîm Troseddau Ieuenctid ac uwch staff mewn asiantaethau partner lleol gan gynnwys yn benodol:
    a. datblygu casgliad a dadansoddiad data effeithiol (gan gynnwys data partneriaid) mewn perthynas â phlant sydd yn, neu sydd wedi cyflawni dedfrydau carcharol sy'n arwain at welliannau mewn gwasanaethau (*Paragraffau 4.7, 4.9, 4.10*)
    b. derbyn a chraffu ar achosion unigol o blant sydd wedi cyflawni dedfrydau carcharol (o'r ardal, ac wedi eu rhyddhau i'r ardal), gan ddysgu o lwyddiannau a methiannau fel ei gilydd, a darparu atebion i wella effeithiolrwydd gwaith a wnaed (*Paragraffau 4.7, 4.8, 4.9*)
    c. gwrando ar farn plant a gwersi o ymchwil i wella darpariaeth ar gyfer y rhai sy'n adsefydlu yn y gymuned (*Paragraff 4.7*)
    d. cydnabod effaith emosiynol y ddalfa a rhyddhau ar blant, eu rhieni / gofalwyr a dioddefwyr, a darparu adnoddau addas a hyfforddi staff i ymdrin â hyn (*Paragraff 4.7*)
    e. gwybod manylion ynghylch llety a darpariaeth addysg y rhai sy'n gadael y ddalfa yn eu hardal ac nid yn dibynnu ar ddata ystadegol yn unig; gwerthuso darpariaeth yn flynyddol, gan gynnwys ymweliadau â darparwyr (*Paragraffau 4.10, 4.11*)
    f. datblygu dealltwriaeth o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel ac asiantaethau partner, gan gynnwys ymweliadau gan aelodau o'r bwrdd rheoli (*Paragraff 4.12*)
    g. dal partneriaid i gyfrif a gweithio ar y cyd ac yn strategol i ddarparu'r gwasanaeth o'r ansawdd gorau i blant i'w helpu i roi'r gorau i droseddu (*Paragraffau 4.8, 4.9*)
    h. sicrhau bod gwaith gan bob asiantaeth yn cael ei wneud yn hyblyg ac yn rhagweithiol yn ystod y cam carcharol, er enghraifft, trwy ymweliadau mwy pwrpasol â sefydliadau carcharol ac ati (*Paragraffau 3.16, 3.17, 3.18, 3.22, 3.26, 3.34)*
    i. sicrhau bod Timau Troseddau Ieuenctid yn mynd ati i helpu ac annog teuluoedd i gadw cysylltiad rheolaidd a gwneud ymweliadau rheolaidd drwy gydol y cyfnod o garchar (*Paragraff 3.35*)
24. sicrhau bod y bwrdd yn cynnwys uwch gynrychiolydd o gomisiynwyr llety lleol ac yn ystyried cynnwys darparwyr addysg bellach lleol hefyd. *(Paragraffau 4.9, 4.11)*

## Dylai rheolwyr Tîm Troseddau Ieuenctid:

25. sefydlu ac ymgorffori dealltwriaeth a darparu arferion adsefydlu da ymysg pob staff YOT ac asiantaethau partner lleol, gan gynnwys yn arbennig:
    a. gwrando ar farn plant a gwersi o ymchwil i wella darpariaeth ar gyfer y rhai sy'n adsefydlu yn y gymuned (*Paragraff 3.14, 3.29*)
    b. cydnabod effaith emosiynol y ddalfa a rhyddhau ar blant, eu rhieni / gofalwyr a dioddefwyr, ac ymdrin â hyn (*Paragraff 3.27*)
    c. Cyfathrebu'n rheolaidd â phlant yn ystod y cam carcharol, gan gynnwys galwadau ffôn, llythyrau, ymweliadau (y tu allan i gyfarfodydd cynllunio) ac ati (*Paragraffau 3.14, 3.20, 3.26*)
    d. rhoi plant gyda staff rhagweithiol, sydd wedi'u hyfforddi'n dda, sy'n cymryd ymagwedd yn seiliedig ar atebion (*Paragraffau 3.25, 3.26*)
    e. cynnwys plant a'u rhieni / gofalwyr wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau (*Paragraff 3.14, 3.15, 3.35*)
    f. sicrhau bod cynlluniau cadarn yn eu lle rhag ofn y bydd trefniadau cychwynnol ar gyfer llety, addysg ac iechyd yn methu (*Paragraff 3.19*)
    g. datblygu dealltwriaeth o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a rolau partner gan gynnwys rhannu gwybodaeth ac ymweliadau (*Paragraffau 3.7, 3.9, 3.11*)
    h. dal partneriaid i gyfrif a gweithio ar y cyd ac yn strategol i ddarparu'r gwasanaeth o'r ansawdd gorau i blant (*Paragraffau 3.7, 3.9, 3.25*)
    i. gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol i gyflawni gwaith adsefydlu yn ystod y cyfnod carcharol, megis, drwy ymweliadau â sefydliadau carcharol, trefnu a helpu i gyflwyno Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro effeithiol ac ati *(Paragraffau 3.3, 3.13, 3.14, 3.17, 3.25, 3.27, 3.34)*
    j. mynd ati i alluogi teuluoedd i gadw mewn cysylltiad yn rheolaidd a gwneud ymweliadau rheolaidd drwy gydol y cyfnod carcharol (*Paragraff 3.35*)
    k. datblygu sgiliau staff y Tîm Troseddau Ieuenctid i gadeirio cyfarfodydd adolygu adsefydlu'n effeithiol. *(Paragraff 3.20)*
26. sicrhau bod yr holl staff yn asesu, yn cynllunio ac yn rheoli'r risg o niwed mae plant yn ei beri i eraill (*Paragraff 3.32*)
27. gydag asiantaethau partner, cynllunio a hyrwyddo'r defnydd o weithgareddau adeiladol ar gyfer plant sy'n gadael y ddalfa (*Paragraffau 3.15, 3.25, 3.29, 3.30*)
28. dadansoddi llwyddiant a methiant yr holl achosion adsefydlu ar draws y ddedfryd gyfan yn ystod y cam tri mis a chwe mis ar ôl eu rhyddhau, gan gynnwys cyfraniad neu fethiant asiantaethau partner, a rhoi'r manylion i fyrddau rheoli Tîm Troseddau Ieuenctid ag awgrymiadau ar gyfer gwella. *(Paragraffau 4.7, 4.8, 4.9, 4.10)*

## Dylai comisiynwyr a darparwyr gofal iechyd:

29. nodi a gweithredu'r argymhellion sy'n ymwneud ag asiantaethau partner yn yr adroddiad hwn
30. sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n well, integreiddiad llawn o gynllunio gyda chynllunio dedfryd a pharhau'n hwyrach â thriniaeth yn y cyfnod pontio rhwng lleoliadau

diogel a chymunedol, yn enwedig mewn perthynas â'r bobl ifanc hynny sydd ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl. *(Paragraffau 3.9, 3.10, 3.11, 3.14, 3.16, 3.18, 3.24, 4.6)*

# 1. Deddfwriaeth, ymchwil a chanllawiau

**Crynodeb**

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r ddeddfwriaeth ar gyfer dedfrydu plant i'r ddalfa, yr ymchwil am adsefydlu ieuenctid a'r arweiniad a ddarperir i sicrhau sefydliadau ac YOTs.

**Ffeithiau Allweddol**

- Mae'r Gorchymyn Cadw a Hyfforddi (DTO) yn *un* ddedfryd. Mae'n cael ei chyflawni yn rhannol yn y ddalfa ac yn rhannol yn y gymuned.
- Mae'r ffactorau sy'n cyfrannu at ailintegreiddio llwyddiannus yn y gymuned yn hysbys.
- Mae arweiniad i gefnogi adsefydlu llwyddiannus eisoes ar waith.

### Deddfwriaeth

1.1 Mae'r dedfrydau carcharol sydd ar gael i lysoedd ar gyfer plant yn cynnwys:

- **Adran 100 *Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000***
  **Gorchymyn Cadw a Hyfforddi (DTO)**
  Gellir rhoi'r ddedfryd hon i unigolion 12-17 oed. Gall hyd y ddedfryd fod rhwng pedwar mis a dwy flynedd. Mae hanner cyntaf y ddedfryd yn cael ei threulio yn y ddalfa a'r ail hanner yn y gymuned, o dan oruchwyliaeth YOT. Os yw plentyn yn cael ei alw'n ôl, mae'n bosibl iddynt gael eu rhyddhau wedi hynny heb unrhyw gyfnod o oruchwyliaeth yn y gymuned.
- **Adran 90 *Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000***
  Dyma'r unig ddedfryd sydd ar gael i'r llysoedd ar gyfer person a gafwyd yn euog o lofruddiaeth a oedd o dan 18 oed ar adeg y drosedd. Mae plant yn cael eu dedfrydu i leiafswm tariff[6], ac wedi hynny gallant wneud cais i'r Bwrdd Parôl[7] ar gyfer eu rhyddhau. Mae hyn yn golygu y gall y plentyn gael ei gadw yn y ddalfa ar ôl diwedd y tariff isaf o garchar os ydynt yn dal i gael eu hystyried yn risg i'r cyhoedd. Mae cyfnod yn y ddalfa yn cael ei ddilyn yn gyffredinol gan gyfnod yn y gymuned ar drwydded o dan oruchwyliaeth naill ai YOT neu wasanaethau prawf[8].
- **Adran 91 *Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000***
  Gellir ei rhoi yn Llys y Goron[9] yn unig am drosedd y gallai oedolyn fod wedi cael o leiaf 14 mlynedd yn y ddalfa. Gall hyd y ddedfryd fod hyd at yr uchafswm i oedolion am yr un drosedd, sydd, am droseddau penodol, yn ddedfrydau oes[10]. Mae cyfnod yn y ddalfa yn cael ei ddilyn yn gyffredinol gan gyfnod yn y gymuned ar drwydded o dan oruchwyliaeth naill ai YOT neu wasanaethau prawf.

---

[5] Defnyddir y term generig YOT gan mai hwn yw'r term a ganfyddir yn y ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae ardaloedd lleol yn gweithredu amrywiaeth o fodelau a thermau i ddarparu gwaith plant sydd wedi troseddu.
[6] Tariff – yr isafswm o gyfnod i'w dreulio yn y ddalfa.
[7] Bwrdd Parôl – corff annibynnol sy'n penderfynu a ellir rhyddhau carcharorion yn ddiogel i'r gymuned.
[8] Gwasanaethau prawf – asiantaethau sy'n gyfrifol am asesu a rheoli oedolion sydd wedi troseddu yn y gymuned.
[9] Llys y Goron – yn delio ag achosion difrifol. Yn achosion plant, mae hyn yn gyffredinol pan fydd y ddedfryd yn fwy na dwy flynedd.
[10] Dedfryd oes – mae gwahanol fathau o ddedfrydau oes. Wrth roi dedfryd oes, mae'n rhaid i'r barnwr fanylu ynghylch isafswm y cyfnod sy'n rhaid i'r unigolyn ei dreulio yn y carchar cyn dod yn gymwys i wneud cais am barôl. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd dedfryd oes yn cael ei rhoi fel 'gorchymyn oes gyfan' sy'n golygu y bydd yr unigolyn yn treulio gweddill ei oes yn y carchar. Mae dedfrydau oes eraill, sy'n nodi isafswm blynyddoedd yn y carchar, yn golygu y bydd yr unigolyn yn treulio cyfnod sylweddol yn y carchar ac efallai na chaiff fyth ei ryddhau; os cânt eu rhyddhau, cânt eu monitro'n agos am weddill eu hoes a gallent gael eu hanfon yn ôl i'r carchar os nad ydynt yn ufuddhau â thelerau eu trwydded.

- Mae'r rhan garcharol o'r ddedfryd yn cael ei dreulio mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc (YOI), Canolfan Hyfforddi Diogel (STC) neu Gartref Diogel i Blant (SCH) yn dibynnu ar oedran, rhyw a bregusrwydd. Mae gwaith adsefydlu a chefnogaeth yn dechrau yn syth ar ôl y ddedfryd, pan fydd y plentyn yn mynd i'r ddalfa, ac mae gwahanol agweddau o'r gwaith yn cael ei wneud gan staff YOI / STC / SCH ac asiantaethau allanol, a arweinir gan YOTs, sy'n gweithio gyda'i gilydd gyda'r plentyn a'i rieni / gofalwyr. Mae gwaith yn y gymuned i baratoi ar gyfer adsefydlu yn parhau i ddigwydd tra bod y plentyn yn y ddalfa. Mae goruchwyliaeth ar ôl rhyddhau yn cael ei wneud gan YOTs ac asiantaethau partner. Yn Lloegr, mae gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, yn arbennig, â dyletswyddau statudol i'r plant hyn o dan y *Ddeddf Plant (2004)* a'r canllawiau *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant 2013. Canllaw gwaith rhyngasiantaethol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant*[11].

### Beth yw adsefydlu?

1.2 Adsefydlu yw'r broses lle mae plant yn ail-ddychwelyd i'r gymuned ac yn setlo yn ôl i'w bywydau ar ôl cyfnod yn y ddalfa. Mae'r ddalfa yn tarfu o bosibl o ran colli llety, torri ar draws addysg, trallod emosiynol a cholled trwy wahanu oddi wrth deulu a ffrindiau, ofn amgylchoedd a chyfoedion newydd. Gall adsefydlu fod yn frawychus ac mae'n peri problemau ymarferol. Nid yw'n broses hawdd i blant, eu rhieni / gofalwyr, aelodau eraill o'u teulu ac, weithiau, y gymuned. I rai, mae mor drawmatig â'u mynediad i'r ddalfa.

1.3 Mae'n bosibl paratoi plant yn briodol ar gyfer adsefydlu effeithiol fel eu bod yn cael eu galluogi i wneud llwyddiant o'r cyfnod pontio, gan ddysgu o'u profiadau a dechrau dod yn aelod defnyddiol o gymdeithas, sy'n ufuddhau i'r gyfraith. Mae hefyd yn bosibl gosod, neu adael, rhwystrau yn eu ffordd, gan ei gwneud yn llai tebygol y byddant yn llwyddo.

1.4 Mae nifer o asiantaethau neu adrannau sy'n gyfrifol am bolisi a strategaeth adsefydlu i blant. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn gyfrifol am bolisi; mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau carcharol gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) a'r STCs; mae'r YJB hefyd yn cefnogi ac yn monitro gwaith adsefydlu YOT. Mae NOMS yn gyfrifol am reolaeth strategol a gweithredol yr YOIs. Yr Adran Addysg (DfE) sy'n gyfrifol am addysg y plant hyn. Yn fwy cyffredinol, mae gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLlDP) ac awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol ar gyfer diogelu plant yn eu hardal, ynghyd â chyfrifoldebau awdurdodau lleol ar gyfer strategaethau addysg a llety lleol.

1.5 Mae YOI's yn gweithredu o dan Gyfarwyddiadau Gwasanaeth Carchardai (PSIs) a Gorchmynion Gwasanaeth Carchardai (PSOs). Mae sawl sy'n rheoli gofal, adsefydlu a Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL) penodol plant.[12] Mae'r STCs, sy'n gweithredu yn y sector preifat ac yn darparu gwasanaethau o dan gontract, yn cael eu polisïau eu hunain sy'n ffurfio rhan o'u cytundebau lefel gwasanaeth gyda'r YJB[13]. Mae canllawiau ar gyfer YOTs yn cael ei ddarparu gan yr YJB[14].

### Beth ydym yn ei wybod am adsefydlu effeithiol?

---

[11] Yr Adran Addysg *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant 2013. Canllaw i weithio'n rhyngasiantaethol er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant*, Mawrth 2013

[12] PSI 08/2012 *Care and Management of Children*; PSI 14/2012 *Implementation of the Service Specification for "Manage the Sentence: Pre and Post Release from Custody";* PSI 21/2012 *ROTL – Amendments to PSO 6300*; PSI 37/2012 *Supervision of Young Offenders*; PSO 6300 *Release on Temporary Licence*

[13] G4S SB5: Adsefydlu (Rhifyn: 4); Polisi Adsefydlu SERCO

[14] Safon Genedlaethol YJB 9 2013 *Cynllunio a darparu ymyriadau yn y ddalfa ac adsefydlu yn y gymuned a Chanllaw Rheoli Achos YJB* (2010)

1.6 Mae ymchwil ar adsefydlu ieuenctid[15] yn disgrifio'r ffactorau sy'n gysylltiedig yn sylweddol â gostyngiad o droseddu ar ôl eu rhyddhau. Mae prosesau adsefydlu cyfredol eisoes yn seiliedig ar yr hyn sy'n hysbys - nid dim ond yr hyn a wneir y tu mewn sy'n gwneud gwahaniaeth; mae'n bennaf am sut mae hynny'n cysylltu â'r gymuned a'r hyn a wneir yn y gymuned.

1.7 Er bod y DTO yn cael ei wneud yn y ddalfa ac yn y gymuned, mae'n un ddedfryd a dylid ei hystyried fel y cyfryw. Dylai'r gwaith a wneir yn y ddalfa ganolbwyntio ar y dyfodol ac nid ar reoli ymddygiad neu'r amser a dreulir yn y ddalfa yn unig. Dylai addysg a hyfforddiant yn y ddalfa adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol, gan gymryd i ystyriaeth gyflawniadau'r plentyn hyd yn hyn a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol, a dylai fod yn rhan o raglen gydlynol, flaengar sy'n parhau yn yr elfen gymunedol. Mae RoTL yn rhan annatod o baratoi a gellir ei ddefnyddio'n llwyddiannus yn y gymuned, mewn ffordd bwrpasol a dychmygus tuag at adsefydlu.

1.8 Dylai gwasanaethau i gwrdd â holl anghenion y plentyn fod ar waith cyn cael eu rhyddhau a'u cydlynu, gydag asiantaethau'n cydweithio, nid yn rhannu gwybodaeth yn unig. Dylai camau paratoi ar gyfer elfen bontio a chymunedol y gorchymyn gychwyn ar ddechrau'r ddedfryd neu hyd yn oed yn y cam cyn-dedfrydu, fel bod y gwahanol elfennau yn eu lle o ddiwrnod cyntaf eu rhyddhau, a bod y plentyn yn gwybod amdanynt ymhell ymlaen llaw. Mae angen i'r plentyn a'i rieni / gofalwyr fod â rhan lawn ac wedi'u hymgysylltu yn y gwaith o gynllunio er mwyn galluogi pontio'n llyfn rhwng y rhannau carcharol a chymunedol o'r ddedfryd briodol.

1.9 Mae ymchwil wedi nodi, i'r plentyn roi'r gorau i droseddu, mae angen iddynt ddechrau meddwl am eu hunain yn wahanol. Mewn geiriau eraill, i gael eu hysgogi i newid eu hymddygiad, mae angen iddynt allu gweld y gallent gael dyfodol gwell. Dylai'r agwedd hon ar y gwaith, eu helpu i ystyried eu hunain yn wahanol, gynnwys yr holl oedolion sy'n gweithio gyda'r plentyn ym mhob cam rhyngweithio, gan gredu ynddynt ac ail-adrodd wrthynt y gall bywyd fod yn wahanol.

1.10 Deillia'r meini prawf[16] ar gyfer yr arolygiad yn uniongyrchol o'r ymchwil a sefydlwyd[17] yn yr ardal hon.

---

[15] Dr. Tim Bateman, Yr Athro Neal Hazel a Dr. Sam Wright, 2013 *Beyond Youth Custody Resettlement of children leaving custody: lessons from the literature*

[16] http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2015/02/Final-Criteria-Resettlement-thematic-v2.pdf

[17] Hazel N and Liddle M (2012) *Resettlement in England and Wales: Key policy and practice messages from research* Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

## 2. Canlyniadau

**Crynodeb**

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r cyfiawnder troseddol cychwynnol a chanlyniadau eraill[18] a brofir gan y plant yn yr arolygiad.

**Canfyddiadau allweddol**

- Mae gormod o blant wedi cael eu hail-arestio, wedi'u cyhuddo neu wedi methu â chydymffurfio â'u goruchwyliaeth.
- Roedd canlyniadau eraill yn aml yn wael.
- Nid oedd diogelu'r cyhoedd yn cael digon o sylw.

### Canlyniadau cyfiawnder troseddol

2.1 Roedd data aildroseddu swyddogol ar gyfer y 12 mis hyd at fis Mawrth 2013 yn dangos bod 68% o'r plant sy'n gadael y ddalfa yng Nghymru a Lloegr yn aildroseddu o fewn 12 mis o gael eu rhyddhau[19].

2.2 Yn ein sampl o 29 o blant, buom yn edrych ar yr hyn a oedd wedi digwydd yn y camau cynnar o gael eu rhyddhau i'r gymuned a gwelwyd bod:

- bron i hanner wedi cael eu harestio am ail-droseddu, rhai o fewn wythnosau o gael eu rhyddhau a thra roeddent yn dal o dan oruchwyliaeth yr YOT
- un rhan o bump wedi cael eu cyhuddo o droseddau pellach, unwaith eto, rhai yn fuan iawn ar ôl cael eu rhyddhau
- pump wedi cael eu galw yn ôl i'r ddalfa am fethu â chydymffurfio â goruchwyliaeth neu droseddu pellach
- dim ond chwarter oedd wedi cydymffurfio'n llawn â'u goruchwyliaeth gan YOTs.

### Canlyniadau eraill / ffactorau ategol

2.3 Fe wnaethom edrych ar y ffactorau sy'n cefnogi plant i drosglwyddo'n llwyddiannus o'r ddalfa i'r gymuned - llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (ETE), gweithgareddau adeiladol - a'r rhai sy'n eu dal yn ôl - materion iechyd meddwl neu emosiynol, camddefnyddio sylweddau ac anawsterau gyda pherthnas ag eraill.

2.4 Yn rhy aml, ni chyflawnwyd trefniadau llety ar ôl i'r plentyn gael ei ryddhau, gan arwain at ddigartrefedd dros dro, symud heb drefniadau, difrod i berthynas deuluol ac aflonyddwch ar addysg neu gyflogaeth. I fwy nag un rhan o dair o blant, ni chafodd llety ei gynnal yn llwyddiannus.

2.5 Mewn llawer o'r achosion a arolygwyd gennym, nid oedd y plentyn wedi cael mynediad at ETE ar ôl cael ei ryddhau neu wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau adeiladol i lenwi eu hamser wrth iddynt aros i ddechrau cwrs. Roedd gormod yn aros ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd heb fawr o bethau i lenwi eu hamser neu eu paratoi i fynd i addysg bellach neu hyfforddiant yn llwyddiannus. Roedd hyn yn arbennig o arwyddocaol o ystyried eu hanes addysgol gwael ac fe wnaethom deimlo, yn absenoldeb

---

[18] Roedd canlyniadau eraill yn cynnwys llety, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, iechyd emosiynol/meddyliol a chorfforol, camddefnyddio sylweddau.
[19] Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid – *data ail-droseddu troseddwyr ifanc a brofwyd 2013*


gwell camau paratoi, bod cynlluniau ar eu cyfer yn afrealistig. Mewn bron i ddwy ran o dair o'r achosion a arolygwyd gennym, ni fu unrhyw gynnydd mewn ETE.

2.6 Ni fu unrhyw welliant yn iechyd meddwl neu emosiynol dros ddwy ran o dair o'r plant a oedd â'r anghenion hynny. Roedd nifer y plant a farnwyd bod ganddynt broblemau iechyd corfforol a oedd angen camau gweithredu dilynol yn y gymuned yn 5 allan o 29; nid oedd canlyniadau ar gyfer 2 o'r rhain wedi gwella. O'r achosion lle'r aseswyd plant â phroblemau camddefnyddio sylweddau, roedd cynnydd mewn llai na hanner.

2.7 Nid oedd amddiffyn y cyhoedd yn ddigon o flaenoriaeth ac o bosibl roedd yn gadael pobl yn y gymuned mewn perygl o niwed. Mewn gormod o achosion, roedd lefel y risg a berwyd, ac i bwy, nid wedi'i sefydlu, ac nid oedd gwaith i reoli risgiau oedd yn bodoli yn amlwg. Mewn dros hanner yr achosion perthnasol, fe wnaethom farnu nad oedd yr asesiad a rheolaeth risg o niwed gan y plentyn i bobl eraill yn ddigon da, naill ai yn ystod y ddalfa neu ar ôl cael eu rhyddhau. Ychydig iawn o blant oedd wedi cael eu hailasesu cyn gadael y ddalfa i weithio allan pwy, os oedd unrhyw un, mewn perygl o gael eu niweidio a beth oedd angen bod ar waith i reoli'r risg honno a diogelu dioddefwyr posibl. Mae hyn yn arbennig o bryderus pan oedd plant eraill yn byw yn yr un lle - naill ai gartref neu mewn llety arall.

2.8 Dywedodd nifer o weithwyr YOT eu bod yn cydnabod newid mewn agweddau ac ymddygiad yn y plant. Felly hyd yn oed pan oedd pethau eraill wedi mynd o'u lle, megis colli eu llety neu fethu â chadw lle mewn addysg, nid oeddent wedi aildroseddu ac wedi cydymffurfio â goruchwyliaeth, weithiau am y tro cyntaf mewn perthynas hir â'r YOT. Roeddent wedi ymateb i anawsterau yn llai negyddol ac nid wedi dychwelyd ar unwaith i batrymau o ymddygiad dinistriol. Gan fod newid bob amser yn cynnwys taith, mae hyn yn garreg filltir gadarnhaol ac yn gyfle i weithwyr proffesiynol adeiladu ar eu gwaith.

**Ffigur 1. Canlyniadau eraill / ffactorau ategol**




## Casgliad

2.9 Mae bod yn y ddalfa bob amser yn ddigwyddiad llawn straen i blant a gall rhyddhau hefyd fod yn amser anodd. Fodd bynnag, gall adsefydlu llwyddiannus hefyd gynnig cyfleoedd gwirioneddol ar gyfer newid.

2.10 Roedd cyfuniad o ddiffyg llety addas, llety sefydlog â chefnogaeth, diffyg yn y gwasanaethau i gwrdd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl a

diffyg gweithgareddau adeiladol ETE neu weithgareddau eraill ystyrlon wedi cyfuno i atal rhoi cyfle i wneud llwyddiant o’r cyfnod pontio hwnnw. I'r gwrthwyneb, roedd yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddent yn methu.

2.11 Ar gyfer y rhai a oedd wedi eu paratoi yn drylwyr ar gyfer cael eu rhyddhau a gyda’r gefnogaeth strwythurol yn ei lle - llety addas, sefydlog a chefnogaeth i’w gynnal naill ai drwy deulu neu weithwyr proffesiynol (neu'r ddau); rhywbeth defnyddiol i'w wneud ac i anelu ato drwy ETE a / neu weithgareddau adeiladol; cefnogaeth wrth ddelio â'r anawsterau a achoswyd gan iechyd emosiynol / meddwl a chamddefnyddio sylweddau, roedd yn bosibl i weithwyr proffesiynol gynnal gwaith ystyrlon i helpu'r plentyn weld ffordd wahanol ymlaen.

2.12 Mewn rhai achosion canfuom lle’r oedd hyn i gyd yn ei le fod plant yn gwneud yn dda. Mewn achosion eraill, yn ein barn ni, gellid bod wedi osgoi'r canlyniadau gwael drwy wasanaethau gwell.

**Esiampl arfer da: Canlyniadau da a gefnogir gan waith ysgogol STIEM Cookham Wood ac YOT Havering**

Yn y gymuned roedd Tony yn gwneud yn dda. Nid oedd wedi aildroseddu, roedd yn gweithio dau ddiwrnod yr wythnos, yn cymryd rhan mewn sesiynau addysg i wella ei fathemateg, wedi cofrestru i ddechrau coleg, yn cynnal sesiynau gwneud iawn wythnosol, yn gweithio gyda'r YOT ar weithgareddau ffitrwydd, yn cymryd cyfrifoldeb yn y cartref ar gyfer tasgau teuluol ac wedi cydymffurfio'n llawn â'i oruchwyliaeth. Roedd y tîm yn y gymuned wedi dechrau gweithio gyda Tony cyn iddo gael ei ryddhau. Roedd Propsects, y gwasanaeth cyngor gyrfaoedd, wedi ymweld ag ef yn y ddalfa, ac wedi darparu prosbectysau coleg a chymorth gyda mynediad i Gynllun Tystysgrif Sgiliau Adeiladu (CSCS). Roedd ei weithiwr YOT wedi cysylltu â'r seicolegydd addysg yn ei ysgol flaenorol a oedd yn gallu rhoi cyngor ar iaith a lleferydd Tony, gan roi gwybod am y ffordd roedd gweithwyr proffesiynol eraill yn gweithio gydag ef. Roedd ei weithiwr camddefnyddio sylweddau cymunedol wedi ymweld ag ef cyn iddo gael ei rhyddhau ac fe wnaeth ychydig o waith penodol ynghylch gadael y ddalfa. Teimlai Tony ei fod angen cymorth dwys gyda chamddefnyddio sylweddau ac fe wnaeth hi ei weld hefyd ar y diwrnod rhyddhau. Roedd Tony hefyd yn ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Mae ei gweithiwr cymdeithasol yn gweithio'n effeithiol gyda'r YOT, yn arbennig o amgylch ei anghenion iechyd.

Roedd mam Tony â rhan fawr ac yn gefnogol iawn drwy gydol y broses, gan fynychu cyfarfodydd cynllunio DTO yn y ddalfa a bod yn lleisiol iawn. Gweithiodd y rheolwr achos YOT yn agos â hi. Yn syth ar ôl cael eu rhyddhau dechreuodd atgyfnerthu ei gymhelliad i beidio â throseddu. Yn ystod ei sesiwn gyntaf gyda hi, fe wnaethant gwblhau rhestr o bethau roedd yn ei gasáu ynglŷn â bod yn y ddalfa. Fe wnaeth hi ei deipio ar ei gyfer a'i roi ar ei wal ystafell wely i'w helpu i gadw ef ar y trywydd iawn.

***Pethau roeddwn i'n gasáu am fod yn y ddalfa***

1. *Gweld eisiau fy nheulu*
2. *Cyfyngiad amser ar alwadau ffôn*
3. *Gwylio mam a dad yn gadael ar ôl ymweliadau*
4. *Teledu bach – dim dyfais newid sianel*
5. *Cynfasau budr*
6. *Matras denau*
7. *Sŵn bangio a sŵn yn y nos (niwsans go iawn)*
8. *Dim tawelwch (niwsans go iawn)*
9. *Gwneud ffrindiau newydd/gweld eisiau hen ffrindiau*
10. *Gweld eisiau pethau rydych yn gwybod sy'n digwydd ar y tu allan*
11. *Cawodydd oer*
12. *Dim bath*
13. *Ddim yn cael gwisgo eich dillad eich hun (siwmperi a throwsus CEM)*
14. *Cyfyngiad ar ddillad isaf (5 pâr o sannau a 5 pâr o drôns)*
15. *Colli'r ffreutur*
16. *Colli cydgysylltu (amser rhydd)*
17. *Oedi trosglwyddo arian*
18. *Gorfod cael esgidiau rhedeg wdi eu hanfon*
19. *Trywanu/bygythiadau*
20. *Cwffio*
21. *Diwylliannau gwahanol – arferion gwahanol…poeri*
22. *Y drefn yn wahanol ac nid eich dewis chi*

**Esiampl arfer da: Canlyniadau da a darpariaeth llety**

**YOT Hammersmith a Fulham**

Roedd Afzal yn Blentyn a oedd yn Derbyn Gofal gan yr awdurdod lleol a oedd wedi dioddef trais dan ddwylo ei dad; roedd ei berthynas gyda'i fam yn llawn problemau ac nid oedd yn gallu byw gyda hi. Roedd wedi cael diagnosis o fod yn dioddef o bosibl o Anhwylder Straen Wedi Trawma.

Tra roedd mewn gofal maeth, yr oedd wedi cyflawni lladrad gan ddefnyddio cyllell fel bygythiad ac ystyriwyd ei fod yn peri risg uchel o niwed i bobl eraill. Mewn lleoliad lled-annibynnol dilynol, roedd wedi dechrau gwneud yn well. Darparodd y lleoliad newydd gefnogaeth 24 awr, roedd ganddo sesiynau cwnsela unigol a chymorth i ddysgu sgiliau bywyd megis cyllidebu a choginio i'w hun.

Pan gafodd y ddedfryd o garchar, fe wnaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol plant dalu tâl cadw i'r lleoliad llety am ddau fis cyn cael ei ryddhau, er mwyn sicrhau y gallai ddychwelyd yno. Roedd hyn yn sicrhau bod Afzal yn gwybod yn union ble roedd yn mynd ymhell ymlaen llaw, ac roedd yn gallu paratoi ei hun a chynllunio ar gyfer ei ddyfodol. Roedd hefyd yn caniatáu i asiantaethau i gael gwasanaethau eraill yn eu lle yn y gymuned.

Yn dilyn cael ei ryddhau, nid yw Afzal wedi aildroseddu, mae wedi cydymffurfio â'i oruchwyliaeth, wedi cynnal ei lety ac yn ymgysylltu'n llawn â chwnsela.

**Enghraifft o arfer: Canlyniadau gwael a'r ffactorau sy'n cyfrannu**

O fewn wythnosau o gael ei rhyddhau o'r ddalfa, cafodd Helen ei harestio am drosedd ddifrifol ac aeth ar remand yn ôl i'r ddalfa.

Roedd hi wedi cael mwy nag un ddedfryd o garchar am droseddau treisgar o'r blaen ac wedi cael ei galw yn ôl yn ystod cyfnodau goruchwylio cynharach. Yn ogystal â pheri risg o niwed i bobl eraill, ystyriwyd Helen yn agored i ecsploitiaeth rhywiol a chredwyd ei bod yn debygol ei bod wedi dioddef cam-drin rhywiol. Roedd ei pherthynas gyda'i mam dan straen.

Cafodd Helen ei lleoli dros 200 milltir i ffwrdd o'r cartref ac roedd wedi gofyn am gael ei throsglwyddo i STC gwahanol fel y byddai'n haws i'w mam ymweld â mynychu cyfarfodydd. Ni ddigwyddodd hyn ac er bod yr YOT wedi cynnig cludiant, ni wnaeth ei mam ymweld â hi na chymryd rhan yn y cynllunio ar gyfer ei rhyddhau. (Fe wnaeth yr STC ddiweddaru mam Helen yn rheolaidd ar ei chynnydd.)

Roedd hi wedi gofyn am gael byw'n agos at ei chariad a'i mam ar ôl cael ei rhyddhau. Dau ddiwrnod cyn iddi gael ei rhyddhau, fe wnaeth Helen ddarganfod ble roedd hi'n mynd i fyw; roedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wedi'i lleoli dros 20 milltir i ffwrdd oddi wrth ei theulu. O fewn diwrnod o gael ei rhyddhau aeth Helen ar goll, ac nid oedd gweithwyr proffesiynol yn gwybod ble roedd hi am bum wythnos (er bod yr YOT wedi parhau i ymdrechu i gysylltu â hi). Pan gafodd ei harestio am y drosedd newydd, daeth yn amlwg ei bod wedi bod yn treulio ei hamser gyda'i mam a'i chariad.

Roedd Helen hefyd wedi bod yn siarad am bwysigrwydd cadw'n brysur pan gafodd ei rhyddhau, ond nid oedd dim ar waith. Teimlai ei rheolwr achos YOT y *gallai* lleoliad yn nes at ei theulu fod wedi osgoi rhai o'r anawsterau a chaniatáu i'r YOT weithio gyda Helen yn fwy effeithiol.

Roedd yn amlwg bod llawer o waith wedi'i wneud gan y gweithiwr cymdeithasol a'r rheolwr achos YOT yn yr achos hwn, ond roedd yn aneffeithiol. Ein barn ni oedd bod ei lleoliad carcharol, mor bell o gartref, cynllunio hwyr ar gyfer ei rhyddhau, mewn llety penodol, wedi gwneud ei holl gynlluniau rhyddhau yn fregus ac nid oedd yn cynnig y cyfle gorau i Helen adsefydlu'n llwyddiannus.

## 3. Hwyluswyr a rhwystrau i ganlyniadau adsefydlu llwyddiannus - gweithredol

**Crynodeb**

Mae'r bennod hon yn amlinellu ein canfyddiadau ynglŷn â'r ffactorau sy'n gweithio i helpu plant i adsefydlu'n llwyddiannus (hwyluswyr) a'r rhai sy'n mynd yn y ffordd (rhwystrau).

**Canfyddiadau allweddol**

- Mae'r rhan fwyaf o'r strwythurau a'r prosesau sydd ar waith eisoes â'r potensial i fod yn hwyluswyr, ond yn rhy aml mae'r prosesau wedi dod yn nod ynddynt eu hunain.
- Mae diffyg llety addas ac addysg briodol ar ôl cael eu rhyddhau yn creu rhwystrau enfawr ar gyfer y rhai nad oes ganddynt fynediad atynt.
- Mae llawer o'r staff sy'n gweithio gyda phlant yn dangos ymrwymiad aruthrol ac yn gweithio'n galed i helpu plant i oresgyn y rhwystrau maent yn eu hwynebu, ond nid ydynt bob amser yn gweithio'n effeithiol.

### Hwyluswyr a rhwystrau

3.1 Mae hwyluswyr canlyniadau adsefydlu effeithiol yn cynnwys y staff, prosesau, adnoddau a strwythurau yn y gwahanol sefydliadau sy'n cyfrannu at ail integreiddio llwyddiannus yn y gymuned. Pan nad yw prosesau ac adnoddau yn cael eu defnyddio'n briodol, neu eu bod yn dod yn nod ynddynt eu hunain, nid ydynt yn effeithiol ar y cyfan. Maent yn cymryd gormod o amser, arferion ticio blwch ar y gorau, ac yn rhwystrau sy'n atal ysgogiad ar y gwaethaf.

### Cydnabod a gweithredu 'dedfryd ddi-dor'

3.2 Mae'r DTO yn un ddedfryd gyda'r hanner cyntaf yn cael ei gyflawni yn y ddalfa a'r ail hanner yn y gymuned. Yn yr un modd, wrth i ni gynllunio ar gyfer plant sy'n symud o un ysgol i'r llall neu o gartref i'r brifysgol, dylai gwaith adsefydlu gymryd i ystyriaeth yr hyn sydd eisoes wedi digwydd a ble mae'r plentyn yn ceisio ei gyrraedd mewn bywyd.

3.3 Yn anffodus, ni chanfuom hyn mewn llawer o achosion. Gyda rhai eithriadau, fe wnaeth yr hanner cyntaf, yr elfen garcharol, ganolbwyntio ar gyfyngiant, rheoli ymddygiad a defnydd adeiladol o amser *yn y ddalfa*. Yn aml ni wnaeth yr ail hanner, yr elfen gymunedol, adeiladu ar yr hyn oedd wedi digwydd yn y ddalfa, neu yn waeth, fe wnaeth ei anwybyddu'n llwyr. *(Argymhellion 7, 8, 9, 10, 17, 25)*

### Staff fel hwyluswyr neu rwystrau

3.4 At ddibenion yr adroddiad hwn rydym wedi defnyddio'r term generig, gweithwyr achos, i'r rhai sy'n rheoli cynllunio dedfrydau mewn sefydliadau carcharol, er yn ymarferol roedd ganddynt wahanol deitlau a rolau. Roedd hyn weithiau yn effeithio ar brofiad y plentyn. Fe wnaeth nifer o blant ddweud wrthym fod eu gweithwyr achos yn ddefnyddiol iawn ac yn gefnogol; roedd eraill ag ychydig o gyswllt y tu allan i gyfarfodydd ac nid oeddynt yn teimlo eu bod yn eu hadnabod.

3.5 O fewn yr STCau, roedd y rôl wedi'i diffinio a'i deall yn dda. Roedd y gweithiwr achos yn rhan o'r tîm a oedd yn gweithio gyda phlentyn ac â chysylltiad rheolaidd. Yn yr YOIau, fodd bynnag, roedd eu rolau yn wahanol. Nid oedd y swydd wedi cael ei diffinio'n fanwl gywir ac nid oedd pob gweithiwr achos wedi cael eu hyfforddi ar gyfer y rôl. Yn fwy eang

o fewn yr YOIs, nid oedd rôl y gweithiwr achos yn cael ei deall bob amser neu ei gwerthfawrogi, ac weithiau cafodd ei hanwybyddu gan staff eraill. Nid oedd pob gweithiwr achos yn arddangos y sgiliau i gynllunio dedfryd yn effeithiol. *(Argymhellion 7,8)*

3.6 Roedd gan YOTs drefniadau gwahanol hefyd ar gyfer rheolwyr achos. Roedd rhai plant yn adnabod eu rheolwr achos am flynyddoedd; nid oedd rhai erioed wedi cyfarfod rhai ohonynt cyn mynd i'r ddalfa. Ochr yn ochr â rheolwyr achos, roedd y trefniadau ar gyfer gwasanaethau cefnogi - camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, ETE ac yn y blaen - yn wahanol hefyd.

3.7 Roedd yn amlwg weithiau bod diffyg dealltwriaeth gan weithwyr achos carcharol o rôl rheolwr achos yr YOT (ac i'r gwrthwyneb) a ychwanegodd at y potensial ar gyfer bylchau yn y gwaith neu ddyblygu. Yn ogystal, fe wnaethom ddod ar draws swm syfrdanol o ddiffyg ymddiriedaeth rhyngddynt. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at dderbyn methiant yn oddefol; er enghraifft, nad oedd modd trefnu llety o fewn amserlen briodol, neu fod cynlluniau ETE amwys yn ddigon da. Nid oedd y naill set o staff na'r llall ymddangos yn barod i herio ei gilydd ar ran y plentyn. *(Argymhellion 8, 16, 18, 25)*

**Enghraifft o arfer: Gweithwyr yn gwrthdaro**

Nodwyd achos Alan o'r cychwyn cyntaf oherwydd gwahaniaethau barn rhwng yr YOT a'r YOI am y math o waith a oedd ei angen. Cafodd ei ganfod yn euog o glwyfo ac roedd ganddo euogfarnau blaenorol am drais. Credai'r YOT ei fod angen gwaith ymddygiad troseddol o amgylch rheoli dicter a hiliaeth. Fe wnaeth yr YOI flaenoriaethu asesiadau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.

Argymhellodd y YOI ryddhau cynnar yn gryf. Fe wnaeth yr YOT ei wrthwynebu'n gryf. Cafodd ei wrthod. Cafodd y plentyn gymorth ei weithiwr eiriolaeth ac fe gafodd y penderfyniad ei wrthdroi. Cafodd ei ryddhau yn gynnar ac o ganlyniad nid oedd unrhyw wasanaethau yn eu lle. Nid oedd unrhyw lety yn ei le ac felly, yn y lle cyntaf, roedd yn rhaid iddo ddychwelyd i fyw gyda'i fam, gyda phwy oedd ganddo berthynas anodd. Nid oedd unrhyw ETE yn ei le. Gwrthododd gefnogaeth gan y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Fe wnaeth cydymffurfiad cychwynnol ddirywio yn gyflym a chafodd ei dorri yn y pen draw[20]. Roedd ei leoliad yn anhysbys am nifer o wythnosau.

3.8 Er bod angen cefnogaeth a chymorth cynhwysfawr i blentyn, gwelsom rai achosion lle'r oedd cymaint o bobl yn cymryd rhan, roeddem yn cwestiynu a oedd yn ddefnyddiol, yn enwedig lle nad oeddent yn hysbys i'r plentyn. Yn 1 achos, fe wnaethom gyfrif 17 o weithwyr proffesiynol. *(Argymhelliad 8)*

**Dyfyniad: Nifer y gweithwyr a gyfranogodd**

*"Roedd gen i'r holl bobl ddieithr yma ar fy achos ... (felly) … caeais y drws a bod ar ben fy hun. (Plentyn)*

### Cyd-weithio

3.9 Gwelsom ormod o esgeulustra o ran iechyd corfforol / meddyliol a gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau, a manylion addysg a gofal cymdeithasol gan yr YOT i'r sefydliad. Lle nad oedd gwybodaeth berthnasol am y plentyn oedd yn asesiad cychwynnol yr YOT, roedd risg ei fod yn cael ei golli wedyn wrth gynllunio dedfryd neu fod gwaith blaenorol yn cael ei ailadrodd. *(Argymhellion 8, 10, 20, 25,, 30)*

[20] Dychwelodd i'r llys am beidio â chydymffurfio â goruchwyliaeth; gall y llys bennu cosb.

3.10 Digon tila oedd rhannu gwybodaeth ar draws adrannau ac asiantaethau er bod hyn yn well o fewn, a rhwng, STCs. Yn y ddalfa, roedd gwasanaethau iechyd yn aml yn defnyddio gwahanol systemau (neu wahanol rannau o'r un system) ac nid oedd bob amser yn rhannu gwybodaeth yn gyson. Nid oedd addysg bob amser wedi'i gydgysylltu'n dda gyda'r ymgynghorwyr ETE mewnol. Nid oedd yr un o'r gwasanaethau hyn yn gweithio fel mater o drefn o fewn y fframwaith cynllunio dedfryd. *(Argymhellion 18, 30)*

3.11 Roedd rhannu gwybodaeth rhwng y ddalfa a'r byd allanol yn dda yn yr STCs ond yn llai cyson yn yr YOIs. Nid oedd rhieni / gofalwyr bob amser yn ymwybodol o'r hyn oedd yn digwydd, yn gallu dylanwadu neu wedi'u cynnwys mewn cynlluniau ar gyfer adsefydlu llwyddiannus. Yn rhy aml, nid oedd gwybodaeth am waith a oedd yn canolbwyntio ar droseddau yn y ddalfa wedi'i derbyn gan yr YOT neu wedi dod i law i'w galluogi i'w defnyddio'n adeiladol. Roedd hyn hefyd yn wir am wybodaeth ETE ac iechyd. *(Argymhellion 8, 16, 18, 19, 25, 30)*

**Dyfyniad: Diffyg cyswllt â rhieni**

*"Rydym yn cael ein ci yn ôl yn fuan. Ges i ffeil fawr am bopeth maent yn ei wneud gydag o – rhoi microsglodyn iddo, cael asesiad mawr, cael ei sbaddu. Rwy'n siŵr eu bod wedi gwneud mwy dros y ci nag y gwnaethant [yr YOI] i Ronald. Rhowch o fel hyn, gallaf godi'r ffôn rŵan a siarad â DEFRA[21], ond roeddwn yn arfer ffonio'r sefydliad carcharol a siarad gyda phum person gwahanol a doeddwn i'n dal ddim yn gwybod beth oedd yn digwydd. (Mam)*

3.12 Mae potensial ar gyfer canlyniadau difrifol pan nad yw gwybodaeth yn cael ei rhannu fel mae'r enghreifftiau isod yn dangos.

**Enghraifft o arfer: Rhannu gwybodaeth yn wael**

Mewn un achos, datgelodd plentyn y gwyddys iddo gael ei gam-drin yn gorfforol gan ei dad, tra iddo fod yn y ddalfa, fod ei fam hefyd wedi bod yn cymryd rhan yn y cam-drin. Roedd plant ieuengach yn dal i fyw gyda hi, ond ni chafodd y wybodaeth hon ei rhannu gyda'r gweithiwr cymdeithasol allanol.

Mewn achos arall, datgelodd plentyn ei fod wedi cam-drin brawd neu chwaer yn rhywiol ac eto nid oedd hyn wedi cael ei rannu gydag asiantaethau allanol.

Yn y ddau achos, roedd potensial i blant gael eu gadael heb eu hamddiffyn.

## Cynllunio dedfryd - rhwystr yn hytrach na hwylusydd?

3.13 Dylai cynllunio dedfryd ar y cyd, gan y tîm gwarchodol a chymunedol, ddechrau paratoi ar gyfer adsefydlu plentyn o ddiwrnod y ddedfryd. Mewn gormod o achosion, ni welsom fawr ddim tystiolaeth o hyn. *(Argymhellion 7, 8, 9, 10, 17, 25)*

3.14 Roedd y mwyafrif helaeth o blant y buom yn siarad â nhw naill ai ddim yn gwybod bod cynllun neu a fawr o syniad beth oedd ynddo. Cwblhaodd timau addysg, iechyd neu gamddefnyddio sylweddau gynlluniau ar wahân ac yn aml nid oedd unrhyw integreiddio. Mewn un achos, gwelsom naw cynllun gwahanol. Yn rhy aml, nid oedd llawer o synnwyr bod cynllunio dedfryd yn gyrru neu'n cydlynu'r holl wasanaethau sy'n gweithio gyda'r plentyn, neu ei fod wirioneddol yn gysylltiedig â'r cynlluniau ar gyfer y byd allanol. *(Argymhellion 7, 8, 9, 10, 11, 12, 18, 25, 30)*

[21] DEFRA: Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

**Dyfyniad: Diffyg cyfranogiad y plentyn wrth gynllunio addysg**

*“Fe es yn ôl i'r un ysgol. Roeddwn i'n meddwl ei fod yn mynd i fod yn iawn, ond doeddwn i ddim yn ei fwynhau ….. i’n meddwl fy mod am wneud TGAU, ond dim ond gwneud yr un pethau roedden nhw. Roeddwn i'n meddwl eu bod yn mynd i wneud Mathemateg a Saesneg, dyna wnaethant ei ddweud yn yr adolygiad.” (Plentyn)*

3.15 Nid oedd cynllunio dedfryd yn aml yn cymryd ystyriaeth o'r asesiadau a gynhaliwyd gan YOTau. Roedd y plentyn yn rhy aml yn gorfod 'ffitio i mewn' i ba bynnag adnoddau a oedd ar gael o fewn y sefydliad. Roedd cynlluniau ysgrifenedig safonol yn dudalennau o hyd, i raddau helaeth yn generig ac yn canolbwyntio'n gyfan gwbl bron ar y cam carcharol gyda ffocws ar reoli ymddygiad ac addysg. Gwelsom fawr ddim a oedd yn cynnwys amcanion adnabyddadwy yn ymwneud yn benodol â'r plentyn unigol. Roedd STCau yn llawer gwell na’r YOIau wrth gynllunio ar gyfer ETE ac anghenion iechyd corfforol yn y ddalfa, ac roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau hynny yn seiliedig ar asesiad cyfoes gan y sefydliad. Fe wnaethom hefyd weld mwy o dystiolaeth yn yr STCau o gynllunio cynnar tuag at adsefydlu. *(Argymhellion 4, 10, 11, 18, 25, 27)*

3.16 Gwelsom nifer o enghreifftiau o blant ddim yn gwybod ble roeddent yn mynd i fyw ar ôl cael eu rhyddhau tan yn hwyr iawn yn y ddedfryd, er gwaethaf cyfeiriad at hyn yn gynnar yn y cynllunio. Roedd pob un ohonynt yn bryderus ac yn ansicr, ac nid oedd y rhan fwyaf yn deall pam na ellid ei ddatrys. Mewn rhai achosion, nid oedd y plentyn hyd yn oed yn gwybod pa ardal awdurdod lleol neu fwrdeistref roedd yn mynd iddi. Roedd hyn yn golygu na ellid gwneud trefniadau ar gyfer ETE, ar gyfer defnydd adeiladol o amser, neu ar gyfer cael gwasanaethau cefnogi camddefnyddio sylweddau neu iechyd corfforol / meddwl yn eu lle. Roedd chwech o'r rhain yn Blant sy'n Derbyn Gofal. Mae'r plant hynny nad ydynt yn dychwelyd at rieni / gofalwyr, yn arbennig o agored i niwed pan gânt eu rhyddhau, i ecsploetiaeth rhywiol, camddefnyddio cyffuriau neu yn syml, methu â delio ag anawsterau y maent yn eu cael, ac yn aildroseddu. *(Argymhellion 2, 5, 10, 20, 23, 30)*

**Dyfyniad: Diffyg llety addas**

*“Does dim wedi newid mewn gwirionedd. Drwy gydol yr holl amser pan oeddwn yn y carchar, mi fuasent wedi gallu fy holi. H* oedd o gyntaf … dywedodd ei fod yn mynd i fy rhoi mewn llety lled-annibynnol. Ond dywedodd fy ngweithiwr YOT newydd S*, nad oedd hyn am ddim ddigwydd a fy mod yn mynd yn ôl at fy nhad. Pan ddes i allan cefais dag, ar ôl i mi gael fy nhaflu oddi yno. Fe wnaeth mam fy rhoi yn nhŷ ei chefnder, ond nid yw yno. Rwy’n dal i ddisgwyl cael fy rhoi mewn llety lled-annibynnol. Rwyf wedi bod yn y carchar am naw mis ac mae wedi cymryd yr holl amser ac nid ydynt wedi dweud dim wrthyf i. Nid wyf yn deall. Dywedodd H * nad oeddwn yn mynd yn ôl at fy nhad. Sut oedd o’n meddwl oeddwn i'n deimlo pan wnaethant fy rhoi yn ôl? (Plentyn)*

* Rheolwyr achos YOT

3.17 Nid oedd ETE yn aml ar waith o gwbl, neu roedd am gael ei drefnu ar ôl eu rhyddhau. Gwelsom nifer o achosion lle'r oedd cynlluniau petrus i'r plentyn fynd i'r coleg ar ddechrau'r tymor nesaf, a oedd weithiau'n fisoedd i ffwrdd. Ni welsom unrhyw achosion lle cafwyd cyfweliadau neu ymweliadau, a phrin oedd y ceisiadau wedi’u cyflwyno cyn cael eu rhyddhau. *(Argymhellion 5, 8, 9, 10, 17, 20, 21, 22, 23, 25)*

**Enghraifft o arfer: Cynllunio ETE Gwael**

Cafodd Jamal, a oedd yn 16 mlwydd oed, DTO 12 mis. Yn y chwe mis roedd yn y ddalfa, cafwyd trafodaeth y gallai ef fynd i'r coleg i wneud cymhwyster BTEC mewn chwaraeon ac roedd cais coleg anghyflawn ar ffeil. Nid oedd yn glir pam nad oedd hyn wedi'i ddilyn. Roedd wedi cwblhau cyrsiau llythrennedd a rhifedd ac yn ei gyfarfod cyn rhyddhau, roedd pryder bod angen iddo sefyll arholiadau cyn gadael y ddalfa i gael bod yn gymwys am brentisiaeth. Nid oedd yn glir pam na chyflawnwyd hyn cyn hynny. Yn y diwedd, roedd y cynlluniau ETE ar gyfer pecyn ar-lein er nad oedd neb yn gwybod a oedd y cyfeiriad yr oedd yn cael ei ryddhau iddo â mynediad i'r rhyngrwyd. Ar ôl cael ei ryddhau, daeth yn amlwg nad oedd mynediad i'r rhyngrwyd, ac felly nid oedd unrhyw beth yn ei le ar ei gyfer.

3.18 Mewn gormod o achosion, nid oedd gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn dechrau yn ddigon cynnar neu'n parhau â'r gwaith a wnaed eisoes yn y ddalfa. Ni allem weld unrhyw reswm boddhaol am hyn oherwydd fel gydag achosion eraill, roedd gwasanaethau ar gael ar adeg y rhyddhau. *(Argymhellion 8, 10, 20, 23, 30)*

**Dyfyniad: Cynllunio annigonol a diffyg darpariaeth o wasanaethau**

*"Y ffordd y gwnaethant iddo swnio yn y cyfarfod, roedd popeth yn mynd mor dda ac yn ôl ei drefn. Ond yn y bôn roeddent ond yn gwerthu breuddwyd i mi, oherwydd ar ôl i mi ddod allan, roedd yn hollol wahanol i'r hyn roeddent wedi ei ddweud." (Plentyn)*

3.19 Gwelsom ychydig iawn o gynllunio wrth gefn; yr hyn a welsom yn lle hynny oedd canlyniadau ei absenoldeb yn y gymuned. *(Argymhellion 8, 10, 20, 25)*

**Enghraifft o arfer: Diffyg cynllunio wrth gefn a rheoli risg.**

Cyn dod i'r ddalfa, roedd Samir wedi byw gyda'i dad mewn fflat un ystafell wely lle bu'n (Samir) cysgu ar y soffa. Roedd yn dweud nad oedd ei dad yn gallu edrych ar ei ôl, nad oedd bwyd yn aml ac iddo fynd yn llwglyd. Roedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn ymwybodol o sefyllfa Samir ond nid oeddent yn teimlo bod ganddynt ddyletswydd i helpu gyda llety.

Nid oedd Samir eisiau dychwelyd i fyw gyda'i dad. Nid oedd ganddo unrhyw gysylltiad ag ef tra roedd yn y ddalfa. Nododd ei fod wedi methu sawl gwaith o'r blaen ac roedd yn teimlo'n rhwystredig oherwydd ei fod yn teimlo nad oedd neb yn gwrando arno. Roedd am fyw'n lled-annibynnol. Cafodd ei roi yn ôl gyda'i dad.

Dau fis ar ôl cael ei ryddhau, torrodd y berthynas gyda'i dad i lawr a bu'n rhaid iddo adael y llety. Ar adeg yr arolygiad roedd yn byw ar ei ben ei hun a heb oruchwyliaeth yn nhŷ perthynas absennol ac yn cael ei fwydo gan ei fam. Ar yr adeg honno gwnaed atgyfeiriad at y darparwyr llety lled-annibynnol.

Aseswyd Samir fel unigolyn a oedd yn peri risg uchel o niwed i eraill.

Yn ein barn ni, o ystyried hanes y berthynas, y diffyg cyswllt ac ofnau Samir, roedd yn gwbl ragweladwy y byddai'r lleoliad yn torri i lawr. Dylai cynlluniau wrth gefn fod wedi bod ar waith i ddiwallu ei anghenion ac i reoli'r risg a berwyd i bobl eraill.

3.20 Bwriad y fforwm ar gyfer cynllunio dedfryd, y cyfarfod DTO, yw dod â'r plentyn a'i rieni / gofalwyr ynghyd gyda staff ac asiantaethau mewnol ac allanol i gynllunio ar gyfer adsefydlu llwyddiannus drwy waith cydlynol yn seiliedig ar anghenion unigol y plentyn. Fe wnaethom arsylwi nifer o'r cyfarfodydd hyn ac roeddent yn ansoddol wahanol yn dibynnu ar y cadeirydd. Roedd yr un gwaethaf a welsom yn ymddangos fel pe bai'n cyflawni proses yn unig. *(Argymhellion 7, 8, 10, 18, 25)*

**Dyfyniad: (ynglŷn â chyfarfodydd DTO)**

*"Mae'n teimlo fel eu bod eisiau dod â'r cyfarfod i ben a gadael. Maent bob amser yn siarad am gyfarfod arall i fynd iddo ac yn edrych ar eu horiawr." (Plentyn)*

3.21 Gwelsom rai cyfarfodydd gwell lle'r oedd plant yn cymryd rhan ac yn cael eu hannog i leisio eu barn, a chawsant eu canmol am eu cynnydd, yn ogystal â chael eu dwyn i gyfrif. Fodd bynnag, hyd yn oed yn y cyfarfodydd gorau, ni chawsom unrhyw synnwyr eu bod yn gyrru cynnydd gweithredol yn ei flaen tuag at nodau'r dyfodol. Ac er bod pob cyfarfod a welsom yn dal y plentyn i gyfrif, ni welsom neb a oedd yn dal gweithwyr proffesiynol i gyfrif lle bu diffyg gweithredu neu gynnydd ar eu rhan nhw. Yn rhy aml roeddem yn clywed ei bod yn rhy gynnar mewn dedfryd i ddechrau cynllunio ar gyfer eu rhyddhau. Nid oedd y sgiliau i wneud y cyfarfodydd hyn yn effeithiol bob amser yn amlwg ac roedd diben y cyfarfod yn aml yn cael ei golli.

3.22 Mynychodd gweithwyr YOT y rhan fwyaf o gyfarfodydd cynllunio DTO. Roedd asiantaethau allanol eraill yn llai dibynadwy. Nid oedd gweithwyr cymdeithasol plant wedi mynychu cyfarfodydd cynllunio mewn bron i hanner yr achosion perthnasol neu wedi gwneud unrhyw fath arall o gyfraniad. *(Argymhellion 7, 8, 10, 16, 18, 20, 23)*

### Hwyluswyr / rhwystrau gwarchodol i leihau aildroseddu

3.23 Gwelsom rywfaint o waith adsefydlu da yn cael ei wneud yn ystod y cyfnod carcharol. Roedd y rhan fwyaf wedi gwneud rhyw fath o waith a oedd yn canolbwyntio ar drosedd. Gwelsom waith rhagweithiol gan weithwyr achos, staff iechyd ac addysg i sicrhau bod gwasanaethau priodol yn eu lle ar gyfer cael eu rhyddhau. Yn anffodus, nid oedd bob amser wedi'i anelu at yr amcanion tymor hwy ac roedd adrannau / asiantaethau yn rhy aml yn gweithio ar wahân i'w gilydd. Nid oedd hyn mor wir am yr STCs.

3.24 Roedd staff addysg ac iechyd yn aml yn canolbwyntio ar yr hyn y gellid ei gyflawni tra roedd plentyn yn y ddalfa. Gyda rhai eithriadau, roedd addysg yn fater o beth oedd ar gael o fewn y sefydliad yn bennaf, heb ddigon o ystyriaeth i fynediad at gyrsiau allanol. Ni welsom fawr ddim o dystiolaeth bod rheolwyr achos YOT yn lobïo i gwrdd ag anghenion unigol. *(Argymhellion 5, 8, 10, 16, 30)*

**Enghraifft o Arfer Da: YOT Coventry yn gweithio i hwyluso addysg**

Pan ddywedodd YOI na allent hwyluso'r asesiad dan reolaeth ar gyfer TGAU Saesneg roedd plentyn yn awyddus i'w sefyll, fe wnaeth y gweithiwr YOT brotestio gyda'r YOI yn gyntaf. Gan fethu â newid y penderfyniad, cysylltodd â Chyd-gyngor Cymwysterau a Bwrdd Arholi Cymru (a threfnodd ymestyn y cyfnod arholiadau). Pan wnaeth yr YOI barhau i wrthod helpu, cynigiodd fynd i'r YOI i hwyluso'r asesiad dan reolaeth ei hun. Fe wnaeth yr YOI yn y pen draw wy rdroi ei benderfyniad ac roedd y plentyn yn gallu cael ei asesu a chael gradd 'llwyddo'.

3.25 O'r 29 o achosion a arolygwyd gennym, dim ond 2 o blant a oedd wedi cael RoTL neu symudedd (STCau yn unig) yn y gymuned. Nid oeddem yn ystyried gwaith ar dir y carchar yn foddhaol at ddibenion adsefydlu oni bai ei fod yn rhan o gynllun i weithio tuag at rywbeth mwy defnyddiol. Ni welsom unrhyw enghreifftiau lle'r oedd YOTau neu wasanaethau gofal cymdeithasol plant yn ymwneud â chyflwyno neu gefnogi RoTL. *(Argymhellion 9, 10, 17, 21, 22, 25, 27)*

**Enghraifft o arfer da - gwaith ar y cyd**

Fe wnaeth Christa droi yn 18 oed tra'r oedd yn STC Medway yn gwasanaethu DTO 12 mis. Roedd hi wedi cyflawni dedfrydau blaenorol o garchar. Roedd ganddi anawsterau dysgu, anghenion iechyd corfforol a meddyliol a phroblem cyffuriau. Roedd ganddi hunan-barch isel ac roedd yn hunan-niweidio. Roedd amheuaeth ei bod wedi cael ei cham-drin. Roedd y gymuned y daeth ohoni'n ynysig ac nid oedd Christa wedi gorfod gwneud fawr ddim â phobl y tu allan. Roedd hyn yn ddylanwadol iawn ar ei ffordd o feddwl ac wedi gwneud iddi gredu bod ganddi fawr o werth y tu allan i'r gymuned.

**Rhan warchodol y ddedfryd**

Gweithiodd yr STC ac YOT Southend gyda'i gilydd i adeiladu cynllun symudedd ac adsefydlu o amgylch ei diddordebau, gan roi ystyriaeth lawn o'i hethnigrwydd a'i diwylliant. Fe wnaethant nodi coginio fel un o'i diddordebau mawr, gweithiasant gyda hi mewn perthynas â gwirfoddoli mewn caffi yn ei chymuned leol, ac ymchwilio i gyrsiau coginio ac ati. Fe wnaeth y cynllun adsefydlu adeiladu ar hyn o'r dechrau. Chwaraeodd yr STC ran mewn codi ei hunan-barch drwy baratoi a rhoi llyfr iddi gyda sylwadau gan blant a staff amdani. Cafodd hwn ei gyflwyno iddi hi cyn iddi gael ei rhyddhau a rhoddodd sail i'r rheolwr achos YOT weithio ar ei hyder a newid sut roedd hi'n teimlo am ei hun a'i bywyd. Cafodd gymorth i'w helpu i gadw mewn cysylltiad â'i ffydd grefyddol. Cafodd RoTL ei ddefnyddio i hwyluso camau gwneud iawn cymunedol a mynd i'r eglwys.

**Rhan gymunedol y ddedfryd**

Er gwaethaf troi 18 oed roedd yr YOT wedi cadw achos Christa. Roedd y gweithiwr YOT wedi ymgynnull nifer fawr o asiantaethau, a'u cydlynu, a oedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda Christa, gan gynnwys cwnsela, iechyd rhywiol, iechyd meddwl, gwneud iawn ac eraill i lenwi ei hamser yn adeiladol ac i ddiwallu ei hanghenion. Cafwyd parhad o ran y rheolwr achos YOT, a gweithwyr camddefnyddio sylweddau ac addysg drwy gydol ei dedfryd.

Dilynwyd y cynllun i barhau â'i diddordeb mewn coginio ar ôl cael ei rhyddhau drwy waith gwneud iawn a chwrs arlwyo a oedd yn cynnwys llythrennedd a rhifedd. Roedd hi hefyd wedi cael aelodaeth campfa ac wedi cael mynd i nofio i barhau i wella ei hiechyd, yn ogystal â'i chyflwyno i ddosbarthiadau nos a'r llyfrgell. Roedd hi wedi ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl oedolion ac roedd y gweithiwr YOT wedi'i chynorthwyo gyda'i dogn a'i fonitro i'w helpu i gymryd ei meddyginiaeth a ragnodwyd.

Nid oedd Christa wedi ail-droseddu ers cael ei rhyddhau.

3.26 Fe wnaethom farnu nad oedd YOTau yn ddigon gweithgar yn ystod y cyfnod carcharol mewn dwy ran o dair o'r achosion a arolygwyd gennym. Nid oedd digon o ymweliadau â'r plentyn y tu allan i'r cyfarfodydd adolygu DTO neu wedi gwneud unrhyw waith ymddygiad troseddol, ac nid oedd llawer o waith gyda rhieni / gofalwyr y tu hwnt i rannu gwybodaeth. *(Argymhellion 10, 19, 23, 25)*

**Enghraifft o Arfer Da: YOT Sandwell yn gweithio gyda rhiant**

Cyn dod i'r ddalfa, roedd David wedi bod yn byw yn annibynnol gan fod ei berthynas gyda'i fam wedi dod yn anodd. Roedd am ddychwelyd adref ond roedd ei fam yn amharod i'w gael yn ôl yn byw gyda hi ar ôl cael ei ryddhau. Roedd y rheolwr achos YOT yn gweithio i roi sicrwydd iddi y byddent yn cael eu cefnogi ac y byddai cynlluniau wrth gefn yn eu lle pe byddai pethau'n mynd o chwith. Ddau fis cyn cael ei ryddhau, cytunodd ei fam y gallai David ddychwelyd adref.

Ar ôl cael ei rhyddhau, gwnaeth y rheolwr achos ymweliadau cartref rheolaidd, nid yn unig i weld David, ond hefyd i dreulio peth amser gyda'i fam i drafod unrhyw bryderon neu anawsterau ymarferol.

Hyd at ddyddiad yr arolygiad, dau fis ar ôl cael ei ryddhau, roedd David wedi cynnal ei lety. Roedd ei berthynas gyda'i fam yn mynd yn dda ac roedd yn awyddus i'w gadw felly; roedd yn cydymffurfio â'r terfynau a osodwyd ganddi. Nid oedd wedi aildroseddu.

3.27 Nid oeddem wedi gweld unrhyw waith paratoi plant neu eu rhieni / gofalwyr ar gyfer effaith emosiynol rhyddhau, yr effaith y gallai hyn ei chael a'r anawsterau a allai ddeillio o hyn. Ni welsom unrhyw ddealltwriaeth eglur neu gydnabyddiaeth o'r effaith ar blant wedi iddynt gael eu gwahanu oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau, neu waith i ragweld teimladau a sut i ddelio â nhw yn llwyddiannus. *(Argymhellion 8, 9, 10, 17, 18, 19, 25)*

**Dyfyniad: Diffyg paratoi ar gyfer effaith emosiynol rhyddhau**

*"Does neb wedi siarad efo fi ynglŷn â phan fyddai'n cael fy rhyddhau. Ar wahân i bobl ar yr un adain, a dydyn nhw ddim ond yn dweud 'Paid â thynnu sylw at dy hun a chadw draw oddi wrth dy ffrindiau'. Ac mae ffrindiau'n dweud wrthyf fod popeth yn brysur ac yn symud ac rydych yn aros adref am ychydig o wythnosau. Mae'r gweithiwr YOT wedi sôn mewn adolygiad y bydd yn wahanol i mi [ond dyna i gyd]." (Plentyn)*

### Hwyluswyr / rhwystrau cymunedol i leihau aildroseddu

3.28 Gwelsom rywfaint o waith rhagorol gan YOTau ac asiantaethau partner i gefnogi plant a'u rhieni / gofalwyr ar ôl cael eu rhyddhau.

**Dyfyniad: Cefnogaeth emosiynol effeithiol yn y gymuned**

*"Dydi o ddim wedi bod yn anodd oherwydd pryd bynnag roeddwn i'n teimlo fy mod am droseddu, fe wnes i ddod yma a dweud wrth T* ac mae hi'n mynd â fi i'r parc neu am ddiod neu adref ac yn dweud wrthyf os ydw i am wneud hynny, fy mod i am golli popeth ac yn y pen draw mi fyddaf i mewn ac allan. Mae hi'n dweud wrthyf am wneud y pethau cywir. Mae hi'n dweud wrthyf y pethau da fel coleg, i ganolbwyntio ar hynny. Mae hi'n dweud wrthyf fy mod yn rhy hyfryd, yn rhy ddoniol i droseddu. Mae hi'n dweud wrthyf nad ydw i'n edrych fel troseddwr, y dylwn ddilyn fy mreuddwydion, anghofio am y gorffennol, am y drosedd." (Plentyn)*

T * Rheolwr achos YOT

3.29 Yr hyn oedd yn aml ar goll i blant, oedd cymorth gyda defnydd adeiladol o amser. Yn absenoldeb mynediad ar unwaith i ETE, roedd plant yn aml yn cael eu gadael heb ddim i'w wneud. Nid oedd hyn yn helpu pan oeddent yn aml yn ceisio sefydlu ffyrdd o fyw heb droseddu, heb gyffuriau ac osgoi grwpiau cyfoedion blaenorol. *(Argymhellion 7, 8, 10, 19, 25, 27)*

**Dyfyniad: Yr angen am weithgareddau adeiladol**

*"Os byddaf yn cadw fy hun yn brysur pan fyddaf yn gadael, bydd hynny'n helpu. Rhaid i mi wneud ISS (Goruchwylio a Gwyliadwriaeth Dwys) ac felly bydd hynny'n fy helpu i beidio â throseddu. Mae ISS yn iawn, ond os byddai'r YOT yn gwneud mwy o bethau, gweithgareddau, fyddwn i ddim yn meddwl am droseddau. Fel arfer, dim ond mynd i'r swyddfa ydi o, ac mae hynny'n ddiflas, felly dyna pam fy mod i'n torri'r rheolau. Efallai nofio, gweithgareddau bob dydd, mynd i'r gampfa. Fel gweithgareddau cyffredin, nid dim ond mynd i'r swyddfa a siarad am dair awr, pedair awr, dim ond yn siarad am yr un pethau, dim ond yr un pethau drosodd a throsodd. Dyna pam dw i'n torri'n rheolau, mae'n boen." (Plentyn)*

3.30 Yn y rhan fwyaf o achosion, yr unig ymateb a welsom i hyn oedd y defnydd o raglenni ISS. Nid oedd hyn yn ymddangos yn briodol i ni gan fod ISS yn adnodd costus, wedi'i gadw fel arfer ar gyfer y plant hynny sy'n cael eu hasesu fel rhai sy'n cynrychioli risg uchel o niwed i eraill, neu'n cael eu hystyried yn debygol iawn o aildroseddu. Yn y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd gennym, ni fu ailasesiad ers dod i'r ddalfa ac felly nid oedd yn hysbys a oedd ISS yn addas. Yn ein barn ni, mae'n gwbl bosibl, gan weithio mewn partneriaeth, i adeiladu a darparu pecynnau gwirfoddol o gefnogaeth i eistedd ochr yn ochr â goruchwyliaeth statudol. *(Argymhellion 10, 27)*

**Dyfyniad: Diffyg cefnogaeth gymunedol strwythuredig**

*"Y rheswm pam nad oeddwn i'n malio dim yn y diwedd oedd oherwydd roeddwn i'n teimlo bod neb yn poeni amdanom ni. Os nad ydi'r YOT ddim yn mynd i roi amserlen briodol i mi, dw i ddim yn poeni. Roeddwn i'n meddwl y byddai'n well i mi fynd yn ôl i'r carchar a dod yn ôl gan gychwyn o'r newydd yn hytrach na bod i fyny ac i lawr, heb wybod beth oedd yn digwydd. Yn bersonol i mi, roedd ISS yn ddigon caled, ond roedd peidio â chael gwybod pryd a ble mae pethau yn mynd i fod yn digwydd, roedd hynny'n ei gwneud hyd yn oed yn fwy anodd. Dw i'n meddwl bod y carchar yn haws oherwydd fy mod yn gwybod beth sydd gen i bob dydd - mae 'na amserlen." (Plentyn)*

3.31 Roedd ymgysylltu yn ffactor allweddol mewn gwaith effeithiol yn y gymuned. Canfuom fod llawer o blant wedi cael budd o reolwyr achos ac asiantaethau partner a oedd yn darparu cefnogaeth hyblyg, barhaus, gan helpu i gadw plant ar y trywydd iawn pan roedd anawsterau. Roedd y gwaith hwnnw yn aml yn cynnwys her i'w ffordd o feddwl ac ymddygiad a gosod ffiniau roeddent yn eu cael yn anodd. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac ar lefel briodol, fodd bynnag, nid oedd rheolwyr achos bob amser yn adeiladu ar y gwaith a oedd yn canolbwyntio ar drosedd a wnaed yn y ddalfa. Lle'r oedd angen gorfodi, cafodd ei wneud yn yr holl achosion a arolygwyd gennym.

**Dyfyniad: Cefnogaeth ysgogiadol effeithiol (YOT Croydon)**

*"Mae agwedd Sally tuag at droseddu a'i dyfodol wedi'i gwrth-droi gan ei gweithiwr Cefnogaeth Adsefydlu Integredig. Mae hi wedi bod yn greadigol ac yn gyson o ran ymgysylltu â Sally, gan ysgogi ei huchelgeisiau a'i chaniatáu i weld taith ymlaen yn ei bywyd. Roedd yn drawiadol iawn, eu gweld yn rhyngweithio, ac agwedd Sally. Nid oedd Sally wedi cydymffurfio â goruchwyliaeth ar sawl achlysur ac fe gafodd ddedfryd carcharol am dorri gorchymyn cymunedol. Mae hi bellach yn cydymffurfio'n llawn, ac yn llawn cymhelliant." (Arolygydd)*

3.32 Nid oedd y risg o niwed a berwyd gan rai plant, yn enwedig pan oedd ganddynt anghenion cymhleth, bob amser yn cael digon o sylw, ac roedd o bosibl yn gadael pobl mewn perygl oddi wrthynt. *(Argymhellion 8, 10, 18, 26)*

**Enghraifft o arfer: Amddiffyn dioddefwyr yn wael**

Roedd Kevin yn Blentyn a oedd yn Derbyn Gofal ac roedd ganddo hanes o ymddygiad ymosodol a threisgar, yn cymryd rhan mewn gweithgaredd gang, wedi gweld trais yn y cartref tuag at ei fam ac wedi ymosod arni ei hun. Cafodd ei asesu fel peri risg i fenywod ac roedd wedi arddangos ymddygiad ymosodol at staff benywaidd y ddalfa. Roedd am ddychwelyd adref i fyw, ond nid oedd yn gallu gwneud hynny am ei fod yn fygythiad i'w fam. Nid oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn mynychu cfarfodydd cynllunio ac ni chafwyd hyd i lety tan yn hwyr iawn, heb ymgynghori â Kevin. Nid oedd unrhyw waith wedi'i wneud gydag ef am ei berthynas gyda hi.

Ni arhosodd Kevin yn y lleoliad. Aeth i aros yng nghartref ei fam, gan ei gadael mewn perygl o drais ganddo. Roedd nifer o ddigwyddiadau tuag at ei fam a merched eraill. Yn y diwedd, galwodd mam Kevin ar yr heddlu. Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod gofal cymdeithasol plant neu'r YOT wedi cymryd unrhyw gamau i'w hamddiffyn hi.

### Rhwystrau strwythurol / trefniadol

3.33 Mae yna nifer o rwystrau strwythurol i baratoi'n gynnar ar gyfer cael eu rhyddhau.

3.34 Roedd pellter y plant oddi wrth eu cartref yn amrywio'n sylweddol – roedd y pellaf yn 274 o filltiroedd ac roedd yr agosaf yn 18 milltir. Roedd un rhan o dair dros 50 milltir o'u cartref. Ar ôl cael eu rhyddhau, roedd y rhan fwyaf o blant yn bwriadu dychwelyd i ardal eu cartref. Mae chwilio a gwneud cais am swyddi, cyrsiau coleg, cyfleoedd hyfforddi, yn gyffredinol yn cael ei wneud ar-lein heddiw.  Lle nad yw hynny'n bosibl, mae plant o dan anfantais ddifrifol. *(Argymhellion 5, 9, 17, 19, 21, 22, 23, 25)*

**Enghraifft o Arfer Da: Defnyddio RoTL**

Roedd STC Rainsbrook wedi defnyddio symudedd i alluogi plant i gael eu cerdyn CSCS. (Mae angen y cerdyn hwn i alluogi pobl i ymgeisio am swyddi adeiladu.)

3.35 Ni allai llawer o rieni / gofalwyr ymweld oherwydd y pellteroedd dan sylw, gan ei gwneud yn anodd iddynt barhau i fod yn rhan o fywydau eu plant neu gymryd rhan mewn cynllunio dedfryd. Roedd effaith emosiynol hyn yn rhywbeth na wnaethom weld ystyriaeth lawn ohoni gan naill ai staff carcharol neu'r YOT. *(Argymhellion 5, 10, 17, 19, 23, 25)*

3.36 Roedd nifer fach o blant angen hawlio budd-daliadau ar ôl cael eu rhyddhau, yn gyffredinol y rhai a oedd yn byw yn annibynnol. Nid oedd proses i'w galluogi i wneud hyn cyn cael eu rhyddhau ac felly roedd cyfnodau lle nad oedd ganddynt arian. (*Argymhellion 6, 9, 17*)

**Dyfyniad: Anhawster wrth gael mynediad at gymorth ariannol ar ôl cael eu rhyddhau**

*"Yn hanesyddol, rydym wedi gweld nad yw canolfannau gwaith a charchar[au] yn cysylltu. Os ydym yn gwybod bod rhywun yn dod allan, mae gennym gyfweliad ar eu cyfer cyn gynted ag y byddant yn dod allan. Ni chafodd ei harian ar unwaith am eu bod yn anfon gwaith papur i'r adrannau anghywir. Byddai'n well o lawer pe bai wedi bod ar waith tra'r oedd hi'r tu mewn." (Gweithiwr Ail-ymgysylltu)*

3.37 Roedd nifer fechan o blant yn yr achosion a arolygwyd gennym a oedd wedi cael eu galw yn ôl. Oherwydd strwythur y DTO, cafodd rhai o'r plant hynny eu rhyddhau yn y diwedd heb unrhyw fath o oruchwyliaeth yn y gymuned. O ystyried eu bod yn debygol o fod y

rhai a oedd angen y cymorth *mwyaf*, nid oedd yn ffafriol i leihau aildroseddu pan nad oedd cyfnod goruchwylio. *(Argymhelliad 3)*

**Enghraifft o arfer: Rhyddhau heb unrhyw fath o oruchwyliaeth**

Cafodd Mark ei alw yn ôl hyd at ddiwedd ei ddedfryd ac felly nid oedd ganddo unrhyw oruchwyliaeth statudol. Roedd yn 14 oed pan gafodd ei ddedfrydu i DTO chwe mis am ladrad.

Nid oedd llawer o gynllunio ar gyfer ei ryddhau, yn ôl pob golwg oherwydd ei fod wedi cyrraedd diwedd ei ddedfryd. Cafodd ei ryddhau ddiwrnod yn gynnar oherwydd camgyfrifiad gan y sefydliad carcharol. Dyrannwyd gweithiwr atal wythnos ar ôl iddo gael ei ryddhau.

Yn fuan ar ôl cael eu rhyddhau, fe wnaeth ei fam adael sefyllfa lle dioddefodd drais yn y cartref (gan ei dad) ac aeth i loches, gyda'r cyfeiriad yn anhysbys iddo, gan ei adael yn ddigartref. Yr wythnos ganlynol dechreuodd fynd ar goll. Mae'n amlwg ei fod yn cuddio oddi wrth ddelwyr cyffuriau roedd wedi dwyn arian ganddynt cyn mynd i'r ddalfa. Yn y diwedd diflannodd i Lundain ac ar ddyddiad yr arolygiad roedd ei leoliad yn anhysbys, er ei fod wedi'i weld yn ei dref enedigol.

**Casgliad**

3.38 Ar gyfer dros hanner y plant a welsom, nid oedd y gwaith adsefydlu wedi bod yn effeithiol nac yn llwyddiannus.

3.39 Mewn llawer o achosion, roedd y cynllun yn cael ei yrru gan broses, yn cymryd ychydig o ystyriaeth o anghenion unigol ac nid oedd yn cynnwys y plentyn na'u rhieni / gofalwyr. Nid oedd gweithwyr achos a rheolwyr achos bob amser yn deall eu rolau neu ddiben cynllunio dedfryd. Nid oedd cynllunio ar gyfer adsefydlu'n dechrau'n ddigon cynnar ac nid oedd ar waith ar ôl cael eu rhyddhau.

3.40 Y profiad i lawer o blant oedd nad oedd ymyriadau yn y ddalfa yn rhan o ddedfryd gydlynol, ddi-dor a oedd yn eu symud tuag at nodau roeddent yn eu deall ac yn cofrestru ar eu cyfer. Nid oedd ymyriadau yn y gymuned yn eu lle yn ddigon cynnar neu ddim yn cymryd i ystyriaeth, ac yn adeiladu ar, gwaith a wnaed yn y ddalfa. Roedd rhannu gwybodaeth a gweithio ar y cyd yn anghyson o fewn y ddalfa a rhwng y ddalfa a'r gymuned.

3.41 Yn rhy aml, nid oedd plant yn cael gwasanaeth lle ystyriwyd trawma gwahanu ac effaith rhyddhau. Nid oedd gwaith paratoi i ymdopi â'r broses o drosglwyddo yn ôl i'r gymuned a'r heriau y byddent yn eu hwynebu. Dwedodd plant wrthym oedd pethau mynd o chwith, nad oeddynt bob amser yn gallu delio â beth oedd yn digwydd ac roeddynt yn dychwelyd i ymddygiad blaenorol, gan gynnwys troseddu.

3.42 Roedd nifer o achosion lle'r oedd y gwrthwyneb yn wir. Gweithiodd gweithwyr achos, rheolwyr achos ac asiantaethau partner yn agos gyda'i gilydd, gan gynnwys y plentyn a'r rhieni / gofalwyr, yn cynnal cyswllt yn ystod y ddalfa, yn sicrhau bod gwasanaethau yn eu lle ar ôl cael eu rhyddhau, ac yn darparu cefnogaeth wedi'i chynnal a hyblyg yn ystod y cyfnod cymunedol. Yn yr achosion hynny, fe wnaethom farnu bod gan y plentyn gwell cyfle o ailintegreiddio'n llwyddiannus yn ôl i'r gymuned.

3.43 Yn ein barn ni, i fwy o blant adsefydlu'n llwyddiannus, mae angen i'r gwaith drwy gydol y ddedfryd newid o fod yn cwblhau cyfres o brosesau'n canolbwyntio'n bennaf ar gadw, i ymateb wedi'i deilwra'n unigol i anghenion a risgiau adsefydlu pob plentyn.

## 4. Hwyluswyr a rhwystrau i ganlyniadau adsefydlu llwyddiannus - strategol

**Crynodeb**

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r sefyllfa strategol o ran gwaith adsefydlu.

**Ffeithiau Allweddol**

- Mae polisi'r Llywodraeth, *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed Pobl Ifanc* yn cynnwys diwygiadau i waith adsefydlu.
- Mae NOMS wedi sefydlu swyddogaeth rheoli ar wahân i oruchwylio'r pump YOI gyda brîff i greu newid diwylliannol.
- Nid yw byrddau rheoli YOT â gwybodaeth benodol am anghenion neu ganlyniadau'r rhai yn y ddalfa neu wedi'u rhyddhau o'r ddalfa.
- Mae arferion addawol yn lleol gan YOTau unigol.

### Cenedlaethol

4.1 Mae nifer o asiantaethau ac adrannau sy'n gyfrifol am bolisi a strategaeth adsefydlu. Mae'r gwahanol gyfrifoldebau'n dod o dan yr MoJ, yr YJB, NOMS, y DfE, sefydliadau diogel unigol, awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd ac YOTs. Nid oes unrhyw un unigolyn, sefydliad neu asiantaeth sy'n atebol yn y pen draw ar gyfer gwella canlyniadau adsefydlu, yn enwedig y gostyngiad yn lefel uchel aildroseddu plant sy'n gadael y ddalfa. *(Argymhelliad 1)*

4.2 Cafwyd nifer o fentrau dros y degawd diwethaf gyda'r nod o wella adsefydlu plant yn dilyn dedfrydau o garchar. Mae'r rhain wedi cynnwys gwasanaethau Cefnogi Adsefydlu Integredig, prosiectau Darparu Adsefydlu ac Ôl-ofal a Chonsortia Adsefydlu.

4.3 Lansiodd y Llywodraeth *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed Pobl Ifanc* yn Ionawr 2014 sydd, ymhlith pethau eraill, yn cynnwys cynlluniau newydd i wella gwasanaethau adsefydlu. Maent yn cynnwys newid prosesau cynllunio dedfrydau a gwaith achos yn y ddalfa yn llwyr; ffocws o'r newydd ar addysg yn y ddalfa; ffurfio partneriaethau rhwng YOTs a darparwyr addysg, awdurdodau lleol a chyflogwyr a gwell defnydd o RoTL. Bydd cyflwyno rhagor o gonsortia adsefydlu (trefniadau rhanbarthol a fwriadwyd i ddwyn ynghyd wasanaethau lleol a'r sefydliadau carcharol) yn cael ei gynnal i hyrwyddo gwaith sy'n fwy cydgysylltiedig. Bydd llwyddiant y consortia hyn yn cael ei werthuso. Mae'r YJB yn arwain ar y prosiect i weithredu'r newidiadau hyn yn yr YOIs drwy NOMS, yn yr STCs ac yn y gymuned drwy YOTs. *(Argymhellion 7, 8, 14, 15)*

4.4 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yn *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed Pobl Ifanc* bod sicrhau llety addas ddigon pell ymlaen llaw cyn rhyddhau yn hanfodol ar gyfer ailsefydlu effeithiol ac yn ymgymryd â gwaith i '*oresgyn y rhwystrau sy'n atal plant rhag cael man priodol a diogel i aros ar ôl cael eu rhyddhau*'. *(Argymhellion 2, 14, 15)*

4.5 Mae NOMS wedi sefydlu swyddogaeth rheoli ar wahân i oruchwylio'r pum YOI. Y tu hwnt i'r newidiadau trefniadol ymarferol, mae *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed Pobl Ifanc* yn amlinellu cynlluniau i newid diwylliant YOIs, a bydd NOMS yn bwrw ymlaen â'r agenda hwn. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod gan staff carcharol y sgiliau cywir ar gyfer y swydd drwy weithdrefnau recriwtio diwygiedig a gwell hyfforddiant. *(Argymhellion 8, 14, 15)*

4.6 Yn y gwasanaethau iechyd, mae’r Offeryn Asesu Iechyd Cynhwysfawr wedi cael ei gyflwyno i’r stad carcharol. Bwriad y teclyn yw cymryd lle'r offer asesu iechyd corfforol / meddyliol a chamddefnyddio sylweddau amrywiol i asesu anghenion iechyd yn gyfannol. Er bod y broses o gyflwyno wedi dechrau gydag YOIs a bellach ar y gweill gydag STCs, rhagwelir y bydd y gymuned hefyd yn cymryd rhan yn y broses. Yn y pen draw, bydd yr asesiad yn cychwyn yn y gymuned, yn dilyn y plentyn i’r ddalfa ac yn ôl allan i'r gymuned eto, ac yn cael ei ddiweddaru ar bob cam. *(Argymhellion 8, 30)*

**Lleol**

4.7 Nid oedd anghenion *penodol* plant yn dod allan o'r ddalfa wedi cael eu hystyried yn ffurfiol gan y rhan fwyaf o'r byrddau rheoli YOT a oedd yn cymryd rhan yn yr arolygiad. Cyn belled ag y gallem ganfod, ni fu unrhyw ddadansoddiad o anghenion mewn unrhyw le i'r grŵp hwn o blant. Dywedodd nifer o gadeiryddion bwrdd wrthym eu bod wedi 'plymio'n ddwfn' i ddata’r ddalfa mewn ymgais i leihau plant yn mynd i'r ddalfa neu leihau remandiau (sydd i'w ganmol), ond nid oedd neb wedi gwneud hyn gyda'r data adsefydlu. *(Argymhellion 13, 23, 28)*

4.8 Gyda rhai eithriadau nodedig, nid oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn cymryd rhan lawn yng nghamau adsefydlu plant, weithiau nid oeddent hyd yn oed yn cyflawni eu dyletswyddau statudol. Gwelsom nifer fach o achosion a oedd wedi'u cau gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant ar ôl cael eu dedfrydu. Mae’n ymddangos na chafodd hyn ei nodi, neu wedi’i drafod gan fyrddau rheoli. *(Argymhellion 7, 23, 28)*

4.9 Yn yr un modd, nid oedd anawsterau ac anghenion ETE penodol y rhai a oedd yn gadael y ddalfa, er enghraifft, y mater o oedi cyn dechrau coleg, wedi’u cydnabod nac wedi cael sylw. *(Argymhellion 20, 23, 24, 28)*

4.10 Yn gyffredinol, roedd byrddau rheoli YOT yn derbyn data ar y Dangosyddion Cenedlaethol Cyfiawnder Ieuenctid a gafodd eu hategu’n aml gan wybodaeth leol. Mewn rhai mannau, ac eithrio aildroseddu, roedd diffyg data ystyrlon i alluogi'r bwrdd i fonitro canlyniadau neu’r ffactorau a oedd yn cyfrannu at blant yn gadael y ddalfa yn iawn. Mae rhai YOTau yn Lloegr wedi parhau i fesur canran y plant mewn llety addas yn wirfoddol, er bod hyn yn parhau i fod yn fesur y cytunwyd arno ar gyfer YOTau yng Nghymru. Dywedodd Cadeiryddion bod y ffigur hwn yn hynod o gadarnhaol, gyda chanrannau rheolaidd yn y 90au uchel. Roedd yn glir, fodd bynnag, nad oedd y dangosydd hwn wedi’i 'ddadbacio'. Ychydig iawn o'r rhai a gyfwelwyd gennym oedd gallu esbonio'r diffiniad o 'addas' neu'r cyfnod angenrheidiol i’w gynnal. *(Argymhellion 13, 23, 28)*

4.11 Fe wnaeth pob un gydnabod bod llety addas yn broblem ar gyfer y boblogaeth cyfiawnder ieuenctid fodd bynnag, ac roedd nifer o awdurdodau lleol wedi edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â hyn. Roedd gan nifer fach o fyrddau rheoli uwch gynrychiolydd o'r adran tai lleol ac adroddwyd bod hyn wedi helpu i ddatrys problemau. Mae *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed Pobl Ifanc* yn cydnabod bod *'angen rhoi mecanweithiau cadarn ar waith i ddwyn partneriaid lleol i gyfrif'. (Argymhellion 2, 7, 20, 23, 24)*

**Dyfyniad: Diffyg llety addas**

*“Mae wedi bod yn amser hir ers y gallai gofal cymdeithasol ddylanwadu ar dai. Ni fyddai tad yn cysgu ar soffa yn cael ei ystyried bellach fel un sydd angen tŷ, hyd yn oed os yw'n helpu gyda pherthnasau ac felly’n lleihau troseddu.” (Cadeirydd bwrdd rheoli YOT)*

4.12 Yn yr ardaloedd ag YOTau a/neu STCau yn y cyffiniau, roedd rhai cysylltiadau strategol wedi’u sefydlu ac roedd tystiolaeth bod hyn wedi cyfrannu at welliannau wrth rannu gwybodaeth. Gwelsom rai enghreifftiau o gynlluniau a phrosiectau arloesol ac addawol, ond nid oeddent wedi cael eu gwerthuso eto. *(Argymhellion 14, 15, 16, 23)*

## Casgliad

4.13 Mae'n siomedig, ar ôl degawd o fentrau, bod gwaith adsefydlu yn dangos ychydig iawn o welliant mewn canlyniadau i lawer o blant, er gwaethaf y ffaith fod ffactorau cyfrannol yn hysbys iawn.

4.14 Mae’r Llywodraeth yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar adsefydlu effeithiol. Mae cynlluniau ar waith i wella gwasanaethau’n sylweddol. Mae hyn i'w groesawu. Mae gwella darpariaeth llety, gwasanaethau addysg ac iechyd *addas* pan gânt eu rhyddhau, a'r gefnogaeth i'w cynnal, yn parhau i fod yn allweddol.

4.15 Yn lleol, mae rhai YOTau wedi dangos dychymyg ac ymrwymiad i waith adsefydlu. Mae angen i fyrddau rheoli ddadansoddi anghenion a chanlyniadau penodol plant sy'n gadael y ddalfa, atebion dylunio, dwyn yr *holl* bartneriaid i gyfrif a chefnogi YOTau yn y gwaith a wneir gyda nhw. Mae angen sefydlu camau craffu rheolaidd ar ddata defnyddiol a gwerthuso ffactorau cyfrannol, gan gynnwys prosiectau newydd.

**Enghraifft o Arfer Da: Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Coventry 2014-15**

Roedd y blaenoriaethau yn y cynllun hwn yn cynnwys:

- rhannu gwybodaeth ETE lawn gyda sefydliadau carcharol
- ymrwymiad i adolygu rhannu gwybodaeth ETE a gwybodaeth yn amserol rhwng y gymuned a’r ddalfa
- lleihau cyfraddau aildroseddu'r rhai sy'n gadael y ddalfa.

Wrth fynd ar drywydd yr un diwethaf, roedd y cynllun yn cynnwys gweithredu i gynnal dadansoddiad o anghenion y garfan adsefydlu o'r flwyddyn flaenorol a'r gwasanaethau a ddarparwyd iddynt.

**Mentrau eraill**

Roedd gan yr YOS fynediad at Lety â Chymorth a gwasanaethau Cefnogaeth Fel Bo’r Angen i bobl ifanc 16-24 oed sy'n agored i niwed. Gwnaed atgyfeiriadau ar gyfer llety ar ôl cael eu rhyddhau, wedi’r ddedfryd.

Cytunwyd ar Weithdrefn Rhannu Gwybodaeth a Phroses Waith rhwng YOS Coventry, Compass (y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau), YOI Werrington ac STC Rainsbrook i wella llif gwybodaeth ac i geisio gwasanaeth camddefnyddio sylweddau mwy di-dor.

**Enghraifft o arfer addawol: Prosiect Ailuno Cyfiawnder Ieuenctid Essex**

Nod y prosiect yw darparu cefnogaeth ailuno i blant sy'n gadael y ddalfa a'u teuluoedd. Mae'n targedu plant sydd yn y ddalfa neu ar fin cael eu rhyddhau. Mae'r tîm yn cefnogi'r teulu cyfan i hyrwyddo perthynas gadarnhaol. Mae'n darparu ymyriadau yn y cartref teuluol, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau pan fo hynny'n briodol. Mae'r gweithwyr yn mynychu cyfarfodydd cynllunio DTO ac yn ymweld â'r plentyn bob mis. Mae'r prosiect yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i wella canlyniadau tymor hir ac i atal eu bod yn dychwelyd i'r ddalfa.

**Enghraifft o arfer addawol: Cefnogaeth Adsefydlu Integredig YOT Caint**

Mae'r gefnogaeth a gynigir gan y gwasanaeth hwn yn wirfoddol ac mae ar gael i bob plentyn sy'n gadael y ddalfa beth bynnag yw eu cyfnod o oruchwyliaeth. Mae'n cynnig cefnogaeth ddwys o ddechrau'r ddedfryd. Mae gweithwyr yn cynnal ymweliadau ychwanegol â phlant yn y ddalfa i adeiladu perthnasau a'u cefnogi trwy'r cyfnod pontio ac i'r gymuned. Mae ar gael am hyd at chwe mis ar ôl i'r oruchwyliaeth ddod i ben. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys mynd gyda phlant i apwyntiadau (megis y ganolfan waith, coleg, darparwyr llety), helpu gydag agor cyfrifon banc, gweithgareddau hamdden adeiladol a chefnogaeth i deuluoedd.

## Atodiad 1: Cwmpas a methodoleg

Diben yr arolygiad oedd asesu effeithiolrwydd gwaith adsefydlu YOTs, yn y gymuned a thrwy waith YOIau ac STCau.

Mae'r meini prawf ar gyfer yr arolygiad ar gael ar www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation.

Cynhaliwyd arolygiadau peilot yn YOT Bradford a HMYOI Wetherby i brofi’r fethodoleg ym mis Ebrill 2014.

Cynhaliwyd gwaith maes yr arolygiad yn HMYOIs Werrington a Cookham Wood, ac STCau Medway, Rainsbrook a Hassockfields ac fe'i cwblhawyd rhwng mis Ebrill a mis Mai 2014.

Cynhaliwyd ymweliadau arolygu dilynol ym mis Gorffennaf a mis Awst 2014 yn yr YOTau canlynol: Birmingham, Brent, Bromley, Dwyrain Swydd Gaer, Coventry, Croydon, Essex, Greenwich, Hammersmith a Fulham, Haringey, Havering, Swydd Hertford, Caint, Northampton, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln, Sandwell, Southampton, Southend, Swydd Stafford, Thurrock, Walsall a Gorllewin Mersia.

Yn y cyfnod carcharol, fe wnaethom arolygu 22 achos gyda bechgyn (yn yr YOIau) a 9 o ferched (yn yr STCau). Fe wnaeth arolygwyr o CQC arolygu’r agweddau iechyd meddwl / corfforol a chamddefnyddio sylweddau ar yr achosion.  Fe wnaeth Ofsted (Gofal Cymdeithasol / Addysg Bellach a Sgiliau) arolygu’r agweddau diogelu ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Fe wnaethom gyfweld 15 o fechgyn a 7 o ferched.

Roeddem yn gallu cymryd camau dilynol gyda 21 o achosion bechgyn ac 8 o ferched yn y gymuned. Fe wnaeth CQC, Ofsted (Gofal Cymdeithasol/Addysg Bellach a Sgiliau) arolygu achosion lle’r oeddem wedi nodi materion penodol tra’r oedd y plant yn y ddalfa. Fe wnaethom gyfweld 10 o fechgyn, 4 o ferched ac 8 o rieni / gofalwyr.

Fe wnaethom gyfweld gweithwyr achos, staff iechyd, camddefnyddio sylweddau ac addysg yn y ddalfa a rheolwyr achos, gweithwyr cymdeithasol a staff allweddol eraill a oedd yn ymwneud â'r plentyn yn y gymuned. Fe wnaethom hefyd gyfweld rheolwyr gweithredol a strategol yn yr YOIau, STCau ac YOTau a Chadeiryddion byrddau rheoli YOT.

Hoffem ddiolch i Garchardai AEM ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, er nad oeddent yn cymryd rhan uniongyrchol, am gynnig help wrth adnabod sefydliadau i ymweld â nhw a materion i’w harchwilio.

**D.S.  Ni chafodd unrhyw blentyn a oruchwyliwyd gan YOTau Cymru eu rhyddhau o’r sefydliadau carcharol a arolygwyd yn ystod y cyfnod perthnasol, ac felly nid oedd YOTau Cymru wedi’u cynnwys yn yr arolygiad hwn.  Fodd bynnag, bydd llawer o'r negeseuon yma'r un mor berthnasol i blant yng Nghymru, gyda ffactorau ychwanegol yr iaith Gymraeg a’i diwylliant i’w hystyried.**

## Atodiad 2: Tablau canfyddiadau

### Asesiad

| **Mae asesiad plentyn wedi cael ei wneud gan yr YOT ynghylch:** | **Do** | **Naddo** |
|---|---|---|
| anghenion | 90% | 10% |
| risg o niwed i eraill | 77% | 23% |
| bod yn agored i niwed | 77% | 23% |
| **Yr asesiad:** | | |
| cafodd ei wneud cyn dedfrydu | 97% | 3% |
| yn gyfredol | 77% | 23% |
| wedi defnyddio'r holl ffynonellau gwybodaeth perthnasol | 65% | 35% |
| **Fe wnaeth yr asesiad ddefnyddio'r holl ffynonellau gwybodaeth perthnasol:** | | |
| ETE | 70% | 30% |
| iechyd corfforol | 36% | 64% |
| iechyd Meddwl | 64% | 36% |
| camddefnyddio sylweddau | 61% | 39% |
| gofal cymdeithasol | 72% | 28% |
| **Roedd yr asesiad yn gywir ac o ansawdd da.** | 40% | 60% |
| **Lle dyfarnwyd yr asesiad yn annigonol roedd hyn oherwydd:** | | |
| gwybodaeth ar goll | 43% | 57% |
| dim dadansoddiad o'r wybodaeth | 26% | 74% |
| asesiad risg o niwed i eraill yn annigonol | 32% | 68% |
| ymddengys ei fod yn gopi dyblyg | 14% | 86% |
| roedd y sgriniad agored i niwed yn annigonol | 52% | 48% |
| **Mae'r asesiad yn ystyried adsefydlu yn llwyr yng nghyd-destun:** | | |
| anghenion | 13% | 87% |
| risg o niwed i eraill | 17% | 83% |
| bod yn agored i niwed | 17% | 83% |

### Gwaith yn y Ddalfa

| **Mae gwybodaeth wedi'i rhannu'n brydlon:** | **Do** | **Naddo** |
|---|---|---|
| gan staff yr YOT gyda'r sefydliad | 54% | 46% |
| gan staff y sefydliad gyda'r YOT | 80% | 20% |
| gan asiantaethau eraill | 56% | 44% |
| **Lle bo hynny'n briodol, mae rhieni / gofalwyr wedi cael y diweddaraf am ddigwyddiadau tra'u bod yn y ddalfa gan staff y ddalfa?** | 68% | 32% |
| **Mae gwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol:** | | |
| yn cael ei wneud gan y sefydliad | 73% | 27% |
| yn cael ei wneud gan yr YOT | 7% | 93% |
| o ansawdd da | 68% | 32% |

## Cynllunio ar gyfer Adsefydlu

| | Do | Naddo |
|---|---|---|
| **Cynhaliwyd y cyfarfod cynllunio cychwynnol o fewn tua 10 diwrnod o ddedfrydu.** | 70% | 30% |
| **Cafodd cynllunio cychwynnol ei lywio gan:** | | |
| yr asesiad YOT (Asset) | 55% | 45% |
| asesiad gofal cymdeithasol | 10% | 90% |
| asesiadau pellach gan y sefydliad | 41% | 59% |
| **Dechreuwyd y cynllunio ar gyfer anghenion adsefydlu *yn y ddalfa* yn y cyfarfod cynllunio cychwynnol:** | | |
| Ymddygiad troseddol | 65% | 35% |
| Llety | 55% | 45% |
| ETE | 61% | 39% |
| Iechyd Meddwl | 57% | 43% |
| Iechyd Corfforol | 36% | 64% |
| Camddefnyddio sylweddau | 61% | 39% |
| **Dechreuwyd y cynllunio ar gyfer anghenion adsefydlu *pan gawsant eu rhyddhau* yn y cyfarfod cynllunio cychwynnol:** | | |
| Ymddygiad troseddol | 39% | 61% |
| Llety | 61% | 39% |
| ETE | 35% | 65% |
| Iechyd Meddwl | 30% | 70% |
| Iechyd Corfforol | 0% | 100% |
| Camddefnyddio sylweddau | 26% | 74% |
| **Mynychwyd y cyfarfod gan yr holl asiantaethau perthnasol:** | | |
| mynychwyd gan ETE allanol | 11% | 89% |
| mynychwyd gan ETE mewnol | 33% | 67% |
| mynychwyd gan asiantaethau iechyd allanol perthnasol | 0% | 100% |
| mynychwyd gan asiantaethau iechyd allanol perthnasol | 24% | 76% |
| mynychwyd gan asiantaethau camddefnyddio sylweddau allanol | 4% | 96% |
| mynychwyd gan asiantaethau camddefnyddio sylweddau mewnol | 14% | 86% |
| mynychwyd gan YOI / swyddog personol STC | 52% | 48% |
| mynychwyd gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant | 56% | 44% |
| mynychwyd gan ddarparwyr llety | 0% | 100% |
| **Yn y cynllun, roedd ffactorau cadarnhaol presennol wedi'u:** | | |
| nodi yn yr asesiad | 72% | 28% |
| cynnwys yn y cynllunio | 30% | 70% |
| **Lle bo'n briodol, archwiliwyd gweithgareddau hamdden adeiladol newydd i'w darparu ar ôl cael eu rhyddhau.** | 7% | 93% |
| **Mynychwyd y cyfarfod cynllunio cychwynnol gan rieni / gofalwyr y plentyn.** | 32% | 68% |
| **Roedd rôl rhieni / gofalwyr ar ôl cael eu rhyddhau wedi'i chynnwys yn y cynllunio.** | 41% | 59% |
| **Roedd y plentyn wedi'i baratoi'n llawn i gymryd rhan yn y gwaith cynllunio gan staff YOI / STC.** | 54% | 46% |
| **Roedd cynlluniau ysgrifenedig yn manylu ynghylch y camau i'w cymryd i:** | | |
| gychwyn trefniadau ar gyfer llety ar ôl cael eu rhyddhau | 23% | 77% |
| cychwyn trefniadau ar gyfer ETE ar ôl cael eu rhyddhau | 17% | 83% |
| cychwyn trefniadau ar gyfer iechyd meddwl ar ôl cael eu rhyddhau | 10% | 90% |
| cychwyn trefniadau ar gyfer iechyd meddwl ar ôl cael eu rhyddhau | 0% | 100% |
| cychwyn trefniadau ar gyfer camddefnyddio sylweddau ar ôl cael eu rhyddhau | 4% | 96% |
| **Mae ROTL yn cael ei ystyried yn llawn yn ystod y cam cynllunio cychwynnol.** | 19% | 81% |
| **Mae'r defnydd o ROTL yn cael ei gynnwys yn y cynllun cychwynnol.** | 0% | 100% |

## Rhyddhau i'r Gymuned

| **Mae llety:** | **Ydi** | **Nac ydi** |
|---|---|---|
| ar gael ar adeg y rhyddhau | 100% | 0% |
| yn addas | 74% | 26% |
| yn briodol i anghenion y plentyn | 70% | 30% |
| **Mae asiantaethau allanol yn cael gwybodaeth yn brydlon am waith a wnaed yn y ddalfa a'r cynnydd a gyflawnwyd:** | | |
| Ymddygiad troseddol (YOT) | 54% | 46% |
| ETE | 52% | 48% |
| camddefnyddio sylweddau | 63% | 38% |
| iechyd meddwl | 63% | 38% |
| **Mae darpariaeth gwasanaethau'n cychwyn o fewn ffrâm amser rhesymol:** | | |
| ETE | 39% | 61% |
| camddefnyddio sylweddau (ar adeg rhyddhau) | 48% | 52% |
| iechyd meddwl (ar adeg rhyddhau) | 13% | 87% |
| gwasanaethau cymdeithasol i blant | 74% | 26% |
| **Roedd ansawdd y gwasanaethau a ddarparwyd yn ddigonol:** | | |
| ETE | 43% | 57% |
| iechyd meddwl | 19% | 81% |
| camddefnyddio sylweddau | 48% | 52% |
| llety | 55% | 45% |
| cefnogaeth i'r plentyn | 67% | 33% |
| cefnogaeth i rieni/ gofalwyr | 74% | 26% |
| i reoli'r risg o niwed | 42% | 58% |
| **Gwneir cysylltiad ystyrlon gyda'r plentyn gan yr YOT ar y diwrnod rhyddhau.** | 100% | 0% |
| **Mae ymgysylltiad gweithredol ac ystyrlon gan yr YOT:** | | |
| gyda'r plentyn | 79% | 21% |
| rhieni/ gofalwyr | 83% | 17% |
| gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant | 72% | 28% |
| **Mae gweithgareddau adeiladol ar gael ac fe gefnogir ymgysylltiad ynddynt.** | 36% | 64% |
| **Cymerir camau gorfodi yn brydlon.** | 100% | 0% |
| **Gwneir ymdrechion i ail-ymgysylltu gan yr YOT.** | 94% | 6% |
| **Mae lefel yr oruchwyliaeth a ddarperir yn briodol i oruchwylio'n effeithiol.** | 78% | 22% |
| **Mae ansawdd yr oruchwyliaeth a ddarperir yn:** | | |
| briodol i oruchwylio'n effeithiol | 65% | 35% |
| briodol i ymgysylltu'n effeithiol | 64% | 36% |
| **Mae gwaith yn y gymuned yn adeiladu ar hynny a ddechreuwyd yn y ddalfa:** | | |
| YOT | 32% | 68% |
| ETE | 40% | 60% |
| camddefnyddio sylweddau | 43% | 57% |
| iechyd meddwl | 19% | 81% |
| gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant | 63% | 38% |
| **Mae strategaethau ymadael yn cael eu hystyried a'u cynllunio gan yr:** | | |
| YOT | 52% | 48% |
| ETE | 37% | 63% |
| camddefnyddio sylweddau | 50% | 50% |
| iechyd meddwl | 30% | 70% |
| **A wnaeth pob asiantaeth weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau adsefydlu cydgysylltiedig?** | 32% | 68% |
| **A oedd y plentyn yn ymgysylltu â'u hadsefydliad a'u galluogi i edrych ymlaen yn gadarnhaol at hwyluso ymatal?** | 54% | 46% |

* Talgrynwyd yr holl ffigurau i ddim lle degol. Pan fo cyfanswm yn fwy na 100%, mae hyn oherwydd bod y ffigurau'n cael eu talgrynnu.

## Paratoi ar gyfer Rhyddhau

| | ✓ | X |
|---|---|---|
| **A oedd y plentyn yn mynd allan ar ROTL?** | 8% | 92% |
| **Mae'r plentyn yn gwybod ble byddant yn byw ar adeg briodol cyn cael eu rhyddhau.** | 55% | 45% |
| **Roedd rhieni / gofalwyr yn mynychu cyfarfod cyn-rhyddhau terfynol.** | 24% | 76% |
| **A oedd y plentyn yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o gynllunio ar gyfer cael eu rhyddhau?** | 58% | 42% |

## Canlyniadau

| **Ers rhyddhau bu:** | **Do** | **Naddo** |
|---|---|---|
| arestiadau | 46% | 54% |
| cyhuddiadau | 21% | 79% |
| euogfarnau | 10% | 90% |
| rhaid dychwelyd i'r ddalfa | 17% | 83% |
| **Mae llety wedi'i gynnal yn llwyddiannus.** | 62% | 38% |
| **Mae Gweithgareddau ETE wedi'u cynnal yn llwyddiannus.** | 28% | 72% |
| **Gwelwyd gwelliannau yn agweddau canlynol y plentyn:** | | |
| iechyd meddwl / emosiynol | 32% | 68% |
| camddefnyddio sylweddau | 45% | 55% |
| **Mae'r plentyn wedi dechrau cymryd cyfrifoldeb am ymgysylltu.** | 54% | 46% |
| **Mae'r plentyn wedi cydymffurfio â goruchwyliaeth:** | | |
| yn llwyr | 26% | - |
| yn rhannol | 67% | - |
| dim o gwbl | - | 7% |
| **Mae'r plentyn wedi setlo yn ôl yn llwyddiannus yn eu cymuned.** | 55% | 45% |
| **A fu cynnydd yn y plentyn mewn:** | | |
| ETE? | 37% | 63% |
| iechyd meddwl? | 28% | 72% |
| camddefnyddio sylweddau? | 41% | 59% |
| llety? | 52% | 48% |
| perthynas â rhieni / gofalwyr? | 50% | 50% |
| **A reolwyd risg o niwed yn llwyddiannus?** | 48% | 52% |

## Llywodraethu

| **Roedd cyfranogiad y rheolwr achos YOT yn cynnwys:** | ✓ | **X** |
|---|---|---|
| bod yn weithgar a chymryd rhan | 73% | Amh. |
| rhannu gwybodaeth ond fawr ddim arall | 15% | Amh. |
| ddim yn cyfranogi digon neu ddim o gwbl | 12% | Amh. |
| **A yw'r YOT wedi ymrwymo digon o adnoddau i adsefydlu'r plentyn hwn?** | 69% | 31% |
| **Ar y cyfan a oedd y gwaith adsefydlu'n llwyddiannus?** | 44% | 56% |

## Atodiad 3: Cyfeiriadau


1. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Ionawr 2014) *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed Pobl Ifanc*
2. Dr Tim Bateman, yr Athro Hazel Neal a Dr Sam Wright (2013) *Beyond Youth Custody Resettlement of children leaving custody: lessons from the literature*
3. Yr Adran Addysg (Mawrth 2013) *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant 2013. Canllaw i weithio'n rhyngasiantaethol er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant*
4. YJB (2013) *Canllawiau Rheoli Achosion*
5. YJB (2013) *Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid*
6. NOMS (2012) *Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 08/2012 Gofal a Rheoli Plant*
7. NOMS (2012) *Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 14/2012 Gweithredu'r Fanyleb Gwasanaeth ar gyfer "Rheoli'r Ddedfryd: Cyn ac ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa"*
8. NOMS (2005) *Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai 6300 Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro*
9. NOMS (2012) *Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 21/2012 ROTL - Diwygiadau i PSO 6300*
10. NOMS (2012) *Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 37/2012 Goruchwylio Troseddwyr Ifanc*

# Atodiad 4: Rôl yr arolygiaethau a chod ymarfer

### Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan:

**http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-hmi-probation/**

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*1st Floor, Manchester Civil Justice Centre*
*1 Bridge Street West*
*Manchester, M3 3FX*

### Y Comisiwn Ansawdd Gofal

Mae gwybodaeth am Rôl y Comisiwn Ansawdd Gofal a'r Cod Ymarfer ar gael ar eu gwefan:

**http://www.cqc.org.uk/**

Mae'r Comisiwn yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*CQC National Customer Service Centre*
*Citygate*
*Gallowgate*
*Newcastle upon Tyne*
*NE1 4PA*

### Ofsted

Mae gwybodaeth am Rôl Ofsted a'r Cod Ymarfer ar gael ar eu gwefan:

**http://www.ofsted.gov.uk/**

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n dymuno rhoi sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Standards in Education, Children's Services and Skills*
*Aviation House, 125 Kingsway*
*London, WC2B 6SE*